Arolygiaeth Prawf EM

# Adolygiad thematig o ddiwylliant ac arferion galw unigolyn yn ôl i'r carchar

Adolygiad o Arolygiaeth Prawf EM

Tachwedd 2020

**Cydnabyddiaeth**

Arweiniwyd yr adolygiad hwn gan Arolygydd EMDavid Miners, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithredoedd, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Y rheolwr oedd yn gyfrifol am yr adolygiad annibynnol hwn oedd Helen Davies.  Dymunwn ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr adolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r adolygiad wedi bod yn bosibl.Sylwer bod yr enwau yn enghreifftiau'r ymarfer wedi'u newid drwy'r adroddiad er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolyn.

© Hawlfraint y Goron 2020

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfon e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawfraint am drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid dan sylw'r hawlfraint .

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

# Cynnwys


**Rhagair** 4

**Ffeithiau cyd-destunol** 6

**Crynodeb gweithredol** 7

Diwylliant sefydliadol 9

Adain Gwaith Achos Gwarchod y Cyhoedd (y PPCS) a'r broses ar ôl galw unigolyn yn ôl i'r carchar 9

**Argymhellion** 10

Dylai Gwasanaeth Charchardai a Phrawf Ei Mawrhydi: 10

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, ynghyd â'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol: 10

**Cyflwyniad** 11

1.1 Y Cefndir i'r adolygiad thematig hwn. 11

Rhyddhau ar drwydded a galw unigolyn yn ôl i'r carchar 11

1.3 Y Fframwaith Polisi Galw'n Ôl, Adolygu ac Ailryddhau Carcharorion a Alwyd yn Ôl 12

1.4 Ffeithiau a data allweddol 13

1.5 Adroddiadau arolygu a phroffiliau carcharorion a elwir yn ôl i'r carchar 15

1.5 Nodau ac Amcanion 16

1.6 Amlinelliad yr adroddiad 16

**2. Trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar a gwneud y penderfyniad hwnnw** 18

2.1 Gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. 18

2.2 Y rhesymau dros alw unigolyn yn ôl i'r carchar 20

2.3 Trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar 23

2.4 Amrywiadau trothwy 25

**Rhybuddion am dorri amodau trwydded a threfniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar** 29

3.1 Rhybuddion am dorri amodau trwydded 29

3.2 Trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar 32

**4. Y broses galw unigolion yn ôl i'r carchar: materion allweddol eraill** 35

4.1 Galw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau 35

4.2 Cyrffyw cyfyngu i'r cartref 36

4.3 Sicrwydd ansawdd ac anghymesuredd 37

4.4 Galw unigolyn yn ôl i'r carchar a rhyddhau gweithredol 39

Casgliadau a Goblygiadau. 40

**Cyfeirnodau** 43

**Annexe 1: Cylch Gorchwyl** 44

**Atodiad 2: Methodoleg** 46

**Atodiad 3: Geirfa** 49

# Rhagair

Mae'r pŵer i alw person yn ôl i'r carchar yn un sylweddol. Mae'n un o'r penderfyniadau pwysicaf a wna swyddogion prawf a gwnaed dros 27,000 o'r penderfyniadau hyn yn 2019/2020. Mae canlyniadau uniongyrchol i'r carcharor a alwyd yn ei ôl yn amlwg ynddo'i hun ond mae gan y penderfyniad hefyd ganlyniadau i ddioddefwyr, dioddefwyr posibl a'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn rhan un o'r adolygiad annibynnol hwn, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2020, bu i ni adolygu achos Joseph McCann a mynegi pryderon difrifol ynghylch y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'i alw'n ôl i'r carchar yn ystod y cyfnod rhwng 2017 ac yn gynnar yn 2019. Nid ydym wedi dod ar draws yr un pryderon yn rhan dau, ein hadolygiad o'r diwylliant a'r arfer o alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn y cyfnod ers hynny. Mae'r staff prawf yn glir mai gwarchod y cyhoedd yw'r brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac adlewyrchwyd hyn yn yr achosion y bu i ni eu hadolygu.

Mae penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn gymhleth yn aml ac yn dibynnu'n fynych ar ddadansoddi gwybodaeth fanwl ac ymddygiad. O'r herwydd, mae'n bwysig y cânt eu cefnogi gan broses drefnus, gyson a theg.Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol brosesau gwahanol i alw unigolion yn ôl i'r carchar ac mae'r rhain yn anghyson yn y defnydd a wneir ohonynt. Mae'n bwysig rhoi blaenoriaeth i wneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a rhoddir i'r staff gweithredol yr amser a'r gefnogaeth rheoli angenrheidiol i wneud penderfyniadau effeithiol.Mae gan staff prawf bryderon ynghylch y canlyniadau proffesiynol a phersonol pe byddent yn methu mynd ati i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac y ceir digwyddiad proffil uchel wedi hynny. Rhaid i ddiwylliant proffesiynol fod wrth galon penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar Mae'n rhaid wrth broses gyson ar gyfer hyn a staff gweithredol sydd â'r hyder y cânt eu cefnogi os gwnânt benderfyniadau ystyriol, amddiffynadwy.

Cawsom fod y system gyfredol ar gyfer rhybuddion am dorri amodau'r drwydded, sydd wedi'u cynllunio i rwystro'r angen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar, yn amrywio rhwng sefydliadau ac oddi mewn iddynt ac nid yw ei heffeithlonrwydd wedi ei werthuso. Roedd bron i'r holl achosion a adolygwyd gennym lle rhoddwyd rhybudd yn dal i arwain at alw unigolyn yn ôl i'r carchar, gan godi cwestiynau am effaith gweithredu fel hyn. Ar ben hynny, nid oes rhagor o graffu ar rybuddion am dorri amodau'r drwydded y tu allan i reoli gwaith goruchwylio arferol ar achosion. Mae angen rhoi sylw brys i hyn. Gallai arwain at orfodi trwyddedau anghyson ac mae hefyd yn annheg o bersbectif cyfiawnder gweithdrefnol. Yn aml defnyddir trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i carchar law yn llaw â rhybuddion am dorri amodau'r drwydded ond nid yw effeithiolrwydd y strategaeth hon wedi'i adolygu ers ei weithredu yn 2017. Rydym yn fodlon y caiff trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar eu cydbwyso yn erbyn gofynion gwarchod y cyhoedd pan roddir ystyriaeth iddynt ond ceir anghysondeb o ran cael atynt a'u defnyddio.

Mae penderfyniadau ynghylch galw unigolyn yn ôl i'r carchar a rhybuddion am dorri amodau'r drwydded yn dibynnu'n aml ar grebwyll ymarferwyr unigol ond ni chaiff y penderfyniadau a'r dyfarniadau ymarfer eu monitro fel mater o drefn am fias a bias diarwybod. Mae canlyniadau anghymesur, yn enwedig felly i ddefnyddwyr gwasanaeth du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, wedi'u nodi mewn rhannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol ond ni chânt eu monitro fel mater o drefn mewn perthynas â phenderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae angen rhoi sylw i hyn i sicrhau y creffir ar benderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar fel mater o drefn ac y gall unrhyw beth a ddysgir lywio gwelliannau mewn arferion prawf.

Mae penderfyniadau ynghylch galw unigolyn yn ôl i'r carchar a rhybuddion ynghylch torri amodau'r drwydded yn gymhleth. Ar draws y naw sefydliad y bu i ni eu harolygu, roedd enghreifftiau o swyddogion cyfrifol yn gwneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar er mwyn gwarchod dioddefwyr, dioddefwyr posib a'r cyhoedd. Roedd enghreifftiau hefyd o staff prawf yn cydlynu pecynnau cymorth cynhwysfawr i unigolion mewn ymgais i dorri patrymau o ymddygiad troseddol sydd wedi hen ymwreiddio.Dylid ychwanegu at y proffesiynoldeb hwn, gyda'r nod o ddatblygu

diwylliant hyderus, proffesiynol sefydliadol. I'r perwyl hwn, cynlluniwyd ein hargymellion i gryfhau'r broses a chefnogi staff prawf wrth iddynt wneud penderfyniadau.



Prif Arolygydd Prawf EM

# Ffeithiau cyd-destunol[1]

| | |
|---|---|
| **79,078** | Cyfanswm nifer yr oedolion oedd yn y carchar ar 30 Mehefin 2020 |
| **9,211** | Nifer yr oedolion yn y carchar ar 30 Mehefin 2020 oherwydd iddynt gael eu galw'n ôl |
| **12%** | Canran nifer y carcharorion yn y ddalfa oherwydd iddynt gael eu galw'n ôl i'r garchar |
| **61,605** | Cyfanswm nifer y carcharorion a gafodd eu rhyddhau o'r carchar rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 (oedolion) |
| **70,136** | Nifer gyfartalog yr achosion wedi i garcharorion gael eu rhyddhau dan arolygiaeth prawf rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 |
| **27,025** | Cyfanswm nifer yr unigolion ar drwydded a alwyd yn ôl i'r carchar rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 (oedolion) |
| **50% y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**<br>**50% Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol** | Canran yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar gan eu darparwyr prawf rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 |
| **38% Safon**<br>**37% Tymor penodol o**<br>**8% Cyrffyw Cadw Cartref**<br>**17% o argyfwng (roedd 4% ohonynt am ddedfrydau amhenodol)** | Canran yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar yn ôl math yr alwad rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 |
| **34% llai na 12 mis**<br>**62% 12 mis neu fwy**<br>**4% o ddedfrydau penagored** | Canran yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar yn ôl hyd y ddedfryd rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 |
| **92% dynion**<br>**8% merched** | Canran y carcharorion a alwyd yn ôl i'r carchar yn ôl rhywedd rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 |

[1]Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2020). *Offender management statistics quarterly: January to March 2020*.

# Crynodeb gweithredol

### Cyd-destun yr adolygiad

ar 05Mawrth 2020, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Cyfiawnder y cynhelid adolygiad annibynnol o achos Joseph Mc Cann gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Byddai dwy ran i'r adolygiad Roedd rhan un am ganolbwyntio ar arolygiaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o Joseph McCann ac yn rhan dau byddid yn adolygu'r diwylliant a'r arferion prawf cyfredol o ran galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Cyhoeddwyd rhan un 30 Mehefin 2020. Rhan dau o'r adolygiad yw'r adroddiad hwn.

Cwblhawyd rhan dau yn erbyn cefndir COVID-19. Roedd naw darparwr prawf yn rhan o'r adolygiad a chynhaliwyd 39 cyfarfod o bell gyda rheolwyr a staff gweithredol trwy fideo neu gynhadledd ffôn yn ystod Gorffennaf ac Awst 2020. Bu i ni archwilio sampl o 50 o achosion lle rhyddhawyd carcharor ar drwydded a'i alw'n ôl neu y cyflwynwyd rhybuddion iddo rhwng Hydref 2019 a Chwefror 2020. Bu i ni hefyd gyfweld y swyddog cyfrifol dynodedig, lle oedd ar gael. Daeth y sampl achos cyn y model cyflawni eithriadol (yr EDM) a gyflwynwyd ddiwedd Mawrth yn sgil argyfwng COVID-19. Mae'r EDM yn sicrhau fod gwarchod y cyhoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ddarparwyr prawfMae'r hyn a ddysgwyd ac a argymhellwyd o'r archwiliad hwn yn berthnasol i arferion prawf cyn cyflwyno'r EDM ac wedi hynny.,

### Gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a'r trothwy

Cawsom fod gwarchod y cyhoedd a gwarchod dioddefwyr yn ganolog i'r penderfyniadau a wna'r gwasanaeth prawf ynghylch galw unigolyn yn ôl i'r carchar.Mae staff gweithredol yn glir mai hyn yw prif ganolbwynt yr arfer o alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Ystyrir trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar fel mater o drefn, lle bo'n briodol, ond nid yw hyn yn peryglu gwaith canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ynghylch gwarchod y cyhoedd.

Yn 2019/2020, gyda 34 y cant o achosion o unigolion yn cael eu galw'n ôl i'r carchar, cynhwysiwyd methiant y defnyddiwr gwasanaeth i gadw mewn cysylltiad â'i swyddog goruchwylio fel y rheswm. Mae swyddogion cyfrifol yn gwneud ymdrechion aruthrol i ddwyn i mewn ddefnyddwyr gwasanaeth nad ydynt yn cydymffurfio ac yn aml rhoddant becynnau cymorth cynhwysfawr ar waith. Mae'r achosion hyn yn defnyddio llawer o adnoddau ac, yn aml, maent yn arwain at gylch di-baid o ryddhau unigolyn ac yna ei alw'n ôl.

Mae'n rhaid cael proses gyson sy'n caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn unigol wrth weithredu rheolau'r drwydded a galw unigolyn yn ôl. Prin iawn yw'r adegau y mae'r penderfyniad yn un syml a rhaid i arferion prawf ganiatáu i'r wybodaeth allweddol gael ei hasesu a'i hadolygu. Mae'n ofynnol i reolwyr roi'r amser a'r gefnogaeth angenrheidiol i swyddogion cyfrifol iddynt gael gwybodaeth a'i dadansoddi a gwneud penderfyniadau da.Dylai arferion a gweithdrefnau swyddfa alluogi proses o'r fath i sicrhau bod penderfyniadau galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ddiffyniadwy ac nid yn rhy bwyllog.Cawsom bod hyn yn amrywio rhwng swyddfeydd a sefydliadau.

Mae sefydliadau prawf wedi cyfleu'rFramwaith Polisi Galw'n ôl, Adolygu ac Ailryddhau Carcharorion a ailalwyd yn ôl i'r carchar(yr RPF)[2] i'w staff ond mae gwybodaeth staff a rheolwyr am y prosesau a'r meini prawf penodol yn anghyson. Roedd staff gweithredol, fodd bynnag, yn glir bod yn rhaid i benderfyniadau ar alw unigolion yn ôl i'r carchar ganolbwyntio ar gynnydd yn y risg o niwed difrifol sy'n gysylltiedig â phatrymau blaenorol o ymddygiad. Mae cyfleu'r fframwaith diwygiedig wedi bod yn gryfach yn y Gwasanaeh Prawf Cenedlaethol nac yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ond nid yw cyfathrebu o fewn adrannau unigol wedi bod yn rhan ostrategaeth genedlaethol gydlynol. Mae'r diffyg cydlynu hyn wedi gostwng effaith polisi cenedlaethol allweddol.

---

[2]Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (2019). *Recall, Review and Re-release of Recalled Prisoners Policy Framework.*

**Rhybudd am dorri amodau trwydded a threfniadau amgen i garcharu.**

Nid yw torri amodau trwydded yn arwain yn awtomatig at alw unigolyn yn ôl i'r carchar.Lle mae darparwyr prawf yn asesu bod modd parhau i reoli unigolion yn ddiogel yn y gymuned, gallant gyflwyno rhybudd am dorri amodau trwydded. Gall rhybudd ynghylch torri amodau trwydded fynd law yn llaw ag amodau diwygiedig i'r drwydded. Gallai'r rhain gynnwys mwy o gyswllt; cydweithredu â gweithgareddau megis profi am gyffuriau; neu gyfyngiadau ychwanegol mewn perthynas â phreswyliaeth neu gyrffyw.

Mae'r arfer cyfredol o roi rhybudd am dorri amodau trwydded yn anghyson rhwng sefydliadau ac oddi mewn iddynt.Mae anghysonderau yn nhrothwy, gwaith cofnodi a chyflwyno rhybuddion.Mae hyn yn ei gwneud yn anodd adnabod achosion lle mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi ei rybuddio a heb gael ei alw'n ôl a gweithredu prosesau sicrhau ansawdd effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion lle rhoddwyd rhybuddion, galw unigolyn yn ôl i'r carchar yw'r canlyniad yn y pen draw o hyd. Tynna hyn sylw at y ffaith bod angen adolygu arferion a chyflwyno proses ddiwygiedig o rybuddio am dorri amodau trwydded.

Bellach mae ymarferwyr yn gweithredu'n gytbwys wrth benderfynu rhwng galw unigolyn yn ôl i'r carchar ac ystyrir bod gweithredu fel hyn yn arfer da ar draws sefydliadau. Fodd bynnag, mae cael mynediad at drefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a defnyddio'r cyfryw drefniadau, megis eiddo cymeradwy a monitro electronig, yn anghyson. Nid yw sefydliadau prawf wedi dadansoddi effeithiolrwydd y strategaeth gyffredinol ynghylch trefniadau amgen, na a yw'n osgoi galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn y pen draw ynteu'n gohirio hyn yn unig. Mae angen eglurhad o rôl eiddo cymeradwy fel trefn amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mewn gwrthgyferbyniad i reolwyr a staff eiddo cymeradwy, ystyria swyddogion cyfrifol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fod eiddo cydnabyddedig yn drefn amgen pwysig i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.

**Sicrhau ansawdd**

Mae cyfraddau galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn amrywio rhwng sefydliadau ac oddi fewn iddynt. Nid oes modd cyfrif am yr amrywiad hwn yn ôl amgylchiadau'r achos unigol yn unig.Yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, mae adrannau'n derbyn gwybodaeth am berfformiad yn chwarterol. Mae hyn yn cynnwys nifer y galwadau'n ôl i garchar a'r rhesymau amdanynt, ynghyd â nifer yr amrywiadau mewn trwyddedau. Nid oes targedau perfformiad mewn perthynas â nifer y carcharorion a alwyd yn ôl i'r carchar ond tynna'r adroddiadau sylw at unedau cyflawni lleol lle mae cyfraddau galw carcharorion yn ôl i'r carchar yn gwyro oddi wrth y cyfartaledd cenedlaethol.Defnyddia adrannau'r NPS y wybodaeth hon i fonitro amrywiadau.Mae'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cynhyrchu gwybodaeth am alw unigolyn yn ôl i'r carchar fel rhan o'u gwaith monitro gorfodaeth. Unwaith eto, nid oes targed perfformiad ar gyfer nifer yr unigolion a elwir yn ôl i'r carchar ac nid yw sefydliadau'n monitro unrhyw gamau a gymerir fel trefn amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, fodd bynnag, yn monitro cyfraddau galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Er enghraifft, nododd un Cwmni Adsefydlu Cymunedol gyfradd isel o unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar a diwygiodd ei arferion o ganlyniad i hynny.

Mae sicrhau ansawdd penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar fel mater o drefn yn dibynnu ar bob uwch-reolwr yn cymeradwyo penderfyniad yr ymarferwr fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Nid yw penderfyniadau i roi rhybudd am dorri amodau trwydded wedi'u targedu i gael eu monitro na'u hadolygu. Defnyddia rhai defnyddwyr prawfdeclyn sicrhau ansawdd Rhan A yr Adroddiad cenedlaethol ar Drefn Amgen i Alw Unigolyn yn ôl i'r carchar a galw Unigolyn yn ôl i'r carchar [3]ond canolbwyntia hwn ar achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn unig yn hytrach nag edrych hefyd ar achosion lle penderfynwyd peidio â'i alw'n ôl. Mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Llundain a Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gogledd-ddwyrain Lloegr wedi cynnal eu mentrau

[3]Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM(2019). *The Alternatives to Recall and Recall Report Part A Quality Assurance tool. Fersiwn 2. NPS Quality and Effectiveness.*

sicrhau ansawdd a samplo ar hap eu hunain i fonitro achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar am anghymesuredd. Fodd bynnag, nid yw darparwyr prawf yn adolygu fel mater o drefn benderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar er mwyn gwirio am fias neu fias diarwybod.

### Diwylliant sefydliadol

Mae adolygiadau o bolisïau cenedlaethol ac achosion difrifol proffil uchel yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddywylliant ac arferion galw unigolyn yn ôl i'r carchar.Yn y blynyddoedd diwethaf roedd cred gyffredin ymhlith staff gweithredol y dylid lleihau i'r eithaf achosion o alw unigolion yn ôl i'r carchar. Yn fwy diweddar, bu pryderon y câi swyddogion cyfrifol eu dal yn gyfrifol, a hynny'n annheg, am unrhyw ganlyniadau anffafriol yn sgil methu mynd ati i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae'r ddau ganfyddiad yn tanseilio'r gwaith o wneud penderfyniadau proffesiynol, y mae'n rhaid iddo fod wrth wraidd y broses. Mae staff gweithredol yn deall y cydbwysedd cywir cyfredol rhwng trefniadau amgen i gadw unigolyn yn y carchar a gwarchod y cyhoedd.I sicrhau nad yw staff gweithredol yn mynd yn rhy bwyllog wrth weithredu, rhaid cael proses gyson o wneud penderfyniadau, a hynny ar gyfer galw unigolyn yn ôl i'r carchar a phenderfyniadau i beidio â'i alw'n ôl.Mae datblygiad diwylliant proffesiynol yn dibynnu ar staff gweithredol yn teimlo'n hyderus y cefnogir penderfyniadau diffyniadwy, proffesiynol os ceir digwyddiad difrifol yn ymwneud â pherson dan oruchwyliaeth.

Mae gwahaniaethau sylweddol mewn arferion a diwylliant galw unigolyn yn ôl i'r carchar rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys gwahaniaethau yn lefel cymeradwyaeth rheolwyr; disgwyliadau staff; dealltwriaeth o'r RPF; a gwahaniaethau ym mathau'r achosion o alw carcharor yn ôl.Cafodd y gwahaniaethau hyn eu cydnabod gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (yr HMPPS) Cymru yn yr hyfforddiant yr aeth ei staff amdano yn y tri mis wedi'r uno yn Rhagfyr 2019. Dylai rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn Lloegr ddysgu o'r enghraifft hon.O gofio pwysigrwydd gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar, dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol flaenoriaethu cyfleu'r RPF i staff ac ymwreiddio proses gyson o alw unigolyn yn ôl i'r carchar pan fyddant yn ailuno.

### Adain Gwaith Achos Gwarchod y Cyhoedd (y PPCS) a'r broses ar ôl galw unigolyn yn ôl i'r carchar

Mae'r berthynas rhwng PPCS canolog Gwarchod y Cyhoedd Ei Mawrhydi (yr HMPPS) a darparwyr prawf yn gweithio'n effeithlon. Caiff unigolyn a elwir yn ôl i'r carchar ar frys ac y tu allan i oriau eu prosesu'n brydlon ac edrycha uwch-reolwyr a rheolwyr gweithredol ar gyngor y PPCS ynghylch trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar fel rhywbeth cadarnhaol.

Yn dilyn achos safonol o alw unigolyn yn ôl i'r carchar, gall swyddogion cyfrifol a'r PPCS adolygu achosion a phenderfynu ailrhyddhau carcharor a alwyd yn ôl dan y cynllun rhyddhau gweithredol. Mae gweithredu achos o ryddhau gweithredol yn anghyson. Mae swyddogion cyfrifol yn ansicr am weithrediad y broses ac mae nifer y carcharorion a gaiff eu rhyddhau'n amrywio rhwng darparwyr. Ni ddylai ystyriaeth ar gyfer rhyddhau ddibynnu ar ba sefydliad sy'n goruchwylio person. Dylid adolygu gwaith gweinyddu a defnyddio'r broses.

Rhaid i'r PCCS gyfeirio'r holl achosion safonol o alw carcharor yn ôl i'r carchar at y Bwrdd Parôl cyn pen 28 diwrnod i garcharor ddychwelyd i garchar. Mae hyn yn cynnwys ystyried Rhan B o'r adroddiad rheoli risg y mae swyddogion cyfrifol yn eu cyflwyno i'r PPCS cyn pen 10 diwrnod i garcharor ddychwelyd i'r ddalfa. Mae'r cyfnod amser hwn yn rhoi amser i garcharorion wneud sylwadau i'r Bwrdd Parôl ar gynnwys y ddogfen.Yn Rhan B adroddiadau rheoli risg mae argymhelliad ynghylch a ddylid ailryddhau'r carcharor.Nid yw'r broses gyfredol ar gyfer cwblhau'n gweithio'n effeithlon. I gwblhau'r adroddiad o fewn y cyfnod amser, rhaid i swyddogion cyfrifol fedru cael at garcharorion yn sydyn cyn gynted ag y byddent wedi dychwelyd i'r carchar. Mae hyn, fodd bynnag, yn anghyson a chaiff swyddogion cyfrifol eu gadael yn aml heb y wybodaeth angenrheidiol i wneud argymhelliad gwybodus pan gaiff carcharor ei ailryddhau.

# Argymhellion

**Dylai Gwasanaeth Charchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:**

1. gyflwyno proses ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno rhybuddion am dorri amodau trwydded, sy'n cynnwys canllawiau ar drothwyon, cyngor ar arferion a chofnodi penderfyniadau rheolwyr.
2. adolygu'r defnydd a wneir o drefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar, pa mor hawdd yw eu defnyddio a'u heffeithiolrwydd. Dylai hyn gynnwys rôl eiddo cymeradwy.
3. dadansoddi gwybodaeth am alw unigolyn yn ôl i'r carchar er mwyn nodi unrhyw amrywiadau mewn arferion rhwng sefydliadau ac oddi fewn iddynt. Dylai hyn gynnwys cyfraddau galw defnyddwyr gwasanaeth sy'n ferched, du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig yn ôl i'r carchar.
4. Sicrhau yr adolygir bias a bias diarwybod mewn penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd galw unigolyn yn ôl.
5. adolygu'r cyfrifoldebau a'r camau i'w cymryd sydd yn Rhan B o'r broses asesu risg, gan gynnwys y cyfnod 10 diwrnod, er mwyn sicrhau bod yr adroddiad a gyflwynir ar reoli risg yn seiiedig ar yr holl wybodaeth berthnasol.
6. adolygu'r gwaith rhyddhau gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n gyson ar draws yr holl sefydliadau.
7. sicrhau bod yr amser angenrheidiol ar gael i asesu'n llawn addasrwydd cyfeiriadau posibl garcharorion ar ôl eu rhyddhau wrth weithredu'r trefniadau i gael cyrffyw cyfyngu i'r cartref.

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, ynghyd â'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:**

8. sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r fframwaith galw unigolyn yn ôl i'r carchar, gan gynnwys trothwyon a meini prawf, o fewn adrannau prawf rhanbarthol newydd Lloegr, pan ddaw cytundeb y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ben.Dylai hyn gynnwys hyfforddiant yn unol â'r digwyddiadau a gynhaliodd HMPPS Cymru yn dilyn yr ailuno yn Rhagfyr 2019.

# Cyflwyniad

## 1.1 Y Cefndir i'r adolygiad thematig hwn.

09 Rhagfyr 2019, dedfrydwyd Joseph McCann i 33 dedfryd oes am gyfres o droseddau treisgar a rhywiol. Adeg y troseddau hyn, roedd Joseph Mc Cann yn cael ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi iddo gael ei ryddhau o'r carchar ar drwydded. Oherwydd difrifoldeb y troseddau cynhaliodd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol adolygiad awtomatig o drosedd bellach ddifrifol. Parodd amgylchiadau'r achos i'r cyhoedd bryderu'n ofnadwy. Pan gyhoeddwyd yr adolygiad o'r drosedd bellach ddifrifol ym Mawrth 2020,[4]comisiynodd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder adolygiad annibynnol ar wahân i'w gynnal gan Arolygiaeth Prawf EM.

Byddai dwy ran i'r adolygiad. Canolbwyntiai Rhan 1, a gyhoeddwyd 30 Mehefin 2020, ar waith gwneud penderfyniadau a rheolaeth unigol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ei oruchwyliaeth o'r achos. Roedd rhan dau i fod yn adolygiad thematig ar draws darparwyr prawf o ddiwylliant ac arferion galw unigolion yn ôl i'r carchar. Yn benodol, y gwaith yn rhan dau oedd canfod a oedd unrhyw dystiolaeth bod y camgymeriadau a wnaed yn achos Joseph McCann yn nodwedd o ddarparwyr prawf yn gwneud penderfyniadau i alw carcharor yn ôl i'r carchar yn fwy cyffredinol. Nodwyd yr elfennau a ganlyn o'r llwyth achos prawf fel y meysydd allweddol i'r adolygiad ganolbwyntio arnynt:

- Achosion o drwyddedau a galw carcharor yn ôl i'r carchar a reolir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol
- achosion a ddedfrydwyd yn oedolion
- achosion o ddedfryd benagored
- achosion o ddedfryd benodol
- y broses o alw unigolyn yn ôl i'r carchar.

Rhan dau o'r adolygiad annibynnol y gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder amdano yw'r adroddiad hwn. Mae'r cylch gorchwyl llawn yn Atodiad 1.

## Rhyddhau ar drwydded a galw unigolyn yn ôl i'r carchar

Caiff yr holl garcharorion a ddedfrydir i garchar am drosedd a'u rhyddhau yng Nghymru a Lloegr eu rhyddhau ar drwydded, a gaiff ei oruchwylio gan y gwasanaeth prawf. I fwyafrif y carcharorion â dedfryd benodol, eu dyddiad rhyddhau amodol yw hanner ffordd trwy eu dedfryd o garchar. Yna cânt eu goruchwylio ar drwydded am weddill cyfnod eu dedfryd,*Arweiniodd Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*at garcharorion yn treulio llai na 12 mis yn y carchar cyn cael eu rhyddhau ar drwydded am y tro cyntaf.I sicrhau bod darparwyr prawf yn goruchwylio pob carcharor am o leiaf 12 mis wedi iddynt gael eu rhyddhau, cyflwynodd y ddeddf hon oruchwyliaeth ôl-ddedfryd ar gyfer achosion lle'r oedd cyfnod y drwydded yn llai na 12 mis. Yn yr achosion hyn, mae'r oruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn dechrau pan fo cyfnod y drwydded yn dirwyn i ben. Yn wahanol i amodau trwydded, fodd bynnag, ni all darparwyr prawf alw unigolion sy'n destun goruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn ôl i'r carcharRhaid wrth achos ffurfiol o dorri amodau mewn llys ynadon i weithredu goruchwyliaeth ôl-ddedfryd.

Gall carcharorion gael eu rhyddhau'n gynt na hanner fordd drwy eu dedfryd os cânt eu rhyddhau gyda chyrffyw cyfyngu i'r cartref. Adolygwyd trefniadau i ryddhau'n gynnar dan gyrffyw cyfyngu i'r cartref yn 2018 gan Gyfarwyddyd Prawf 01/2018,[5] ac ehangodd hyn y meini prawf cymhwyso ar gyfer rhyddhau carcharorion.Mae carcharorion a ddedfrydir i rhwng 12 wythnos a phedair blynedd o

---

[4]Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. (Mawrth 2020). *Serious further offence review in the case of Joseph McCann.*

[5]Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM(2018). *Home Detention Curfew Assessment Process Probation Instruction 01/2018*.

garchar yn gymwys i gael eu rhyddhau ar gyrffyw a gaiff ei fonitro'n electronig, hyd at 135 o ddyddiau cyn eu dyddiad rhyddhau amodol.Mae'r gwasanaethau monitro electronig yn gyfrifol am drefniadau cyrffyw electronig, gan gynnwys rhoi gwybod i'r PPCS am achos o dorri'r amodau monitro electronig, ond caiff amodau eraill y rhyddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref eu rheoli gan ddarparwyr prawf.

Awdurdodir rhyddhau carcharorion â dedfrydau penagored am un ai oes neu garchariad i warchod y cyhoedd, gan y Bwrdd Parôl.  Er y bydd y barnwr sy'n dedfrydu'n gosod isafswm cyfnod y bydd rhaid i garcharor ei dreulio dan glo, cyfrifoldeb y Bwrdd Parôl yw penderfynu ryddhau'r carcharor unwaith y bydd y cyfnod hwn wedi'i dreulio.Unwaith y cânt eu rhyddhau, bydd carcharorion â dedfrydau penagored yn treulio cyfnod penagored ar drwydded dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Gellir gohirio elfen oruchwyliaeth y drwydded os yw'n briodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall yr unigolyn a rhyddhawyd gael ei alw'n ôl i'r carchar am weddill ei oes.

## 1.3 Y Fframwaith Polisi Galw'n Ôl, Adolygu ac Ailryddhau Carcharorion a Alwyd yn Ôl

Mae'r Fframwaith Polisi Galw'n Ôl, Adolygu ac Ailryddhau Carcharorion a Alwyd yn Ôl (RPF)[6]yn gosod proses a meini prawf galw carcharor yn ei ôl a'i ryddhau ar gyfer carcharorion cyfnod penodol a phenagored.Cyflwynwyd y canllawiau hyn yn wreiddiol i ddarparwyr prawf gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Ebrill 2019 a'u hailgyflwyno gyda mân ddiwygiadau yn Chwefror 2020.

Mae'r canllawiau'n gosod cyd-destun a chyfrifoldebau gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ynghylch dedfrydau penodol a phenagored.  Cyfrifoldeb darparwyr prawf yw'r penderfyniad i alw unigolyn ar drwydded yn ôl i'r carchar. Golyga cael ei alw'n ôl i'r carchar y gallai carcharor, o bosibl, dreulio gweddill cyfnod ei drwydded yn y carchar neu, i garcharorion â dedfryd benagored, yr amser y cred y Bwrdd Parôl sy'n angenrheidiol i sicrhau y bydd yn ddiogel i'w rhyddhau yn y dyfodol.Mae'n amlwg bod gan y penderfyniad i anfon unigolyn yn ôl i'r carchar ganlyniadau sylweddol a rhaid iddo gael ei seilio ar dorri amodau'r rhyddhau ar drwydded.

Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan ddarparwyr prawf i alw unigolyn sydd yn y carchar am gyfnod penodol yn ôl yno fod yn seiliedig ar ei ymddygiad pan oedd ar drwydded.  Ymhlith y rhesymau dros alw unigolyn yn ôl i'r carchar mae:

- cael ei gyhuddo o ragor o droseddau neu gyflawni troseddau pellach
- ymddygiad sy'n dangos risg uwch o niwed difrifol i'r cyhoedd neu risg uniongyrchol o ragor o droseddau
- torri unrhyw amod o'r drwydded, gan gynnwys y gofyn i gadw mewn cysylltiad ac ymbresenoli i swyddogion cyfrifol.

Mae'r meini prawf ar gyfer galw'n ôl unigolion sydd yn y carchar am gyfnodau penagored  yn wahanol er mwyn cyfrif am y canlyniadau posibl o ddychwelyd rhywun i'r carchar am gyfnod amhenodol. Rhaid adnabod 'cyswllt achosol' rhwng yr ymddygiad sy'n peri pryder a'r ymddygiad a arddangosir adeg y drosedd gyfeirio. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth o:

- ymddygiad sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau'r drwydded gyfeirio
- ymddygiad sy'n debygol o arwain at drosedd rywiol neu dreisgar
- ymddygiad sy'n gysylltiedig â chyflawni trosedd rywiol neu dreisgar
- methu cadw cysylltiad â'r swyddog cyfrifol gyda'r rhagdybiaeth y ceid rhagor o  droseddau rhywiol neu dreisgar.

Mae'r RPF yn egluro'r tair proses wahanol o ran galw unigolyn un ôl i'r carchar:

---

[6]Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (2019). *Recall, Review and Re-release of Recalled Prisoners Policy Framework.*

- **Galw'n ôl i'r carchar am gyfnod sefydlog. Gall darparwyr prawf ystyried hyn ar gyfer unigolion sydd â dedfryd benodol yn unig. Caiff carcharorion a elwir yn ôl i'r carchar gael eu hailryddhau'n atomatig ar ôl cyfnod sefydlog. Caiff carcharorion sydd yn y carchar am lai na 12 mis eu galw'n ôl am 14 diwrnod a chaiff y rhai sydd yno am 12 mis neu fwy eu galw'n ôl am 28 diwrnod.Nid yw unigolion sydd yn y carchar ar ddedfrydau penagored neu estynedig yn gymwys i gael eu galw'n ôl am gyfnod sefydlog.[7]**
- **Galw'n ôl i'r carchar am gyfnod safonol. Mae hyn yn berthnasol i'r holl achosion lle mae'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd yn rhy uchel i ystyried galw unigolyn yn ôl i'r carchar am gyfnod sefydlog. Gallai galw unigolyn yn ôl i'r carchar am gyfnod safonol arwain ato'n aros dan glo tan bydd dyddiad ei ddedfryd yn dod i ben. O'r herwydd, mae gan unigolion a elwir yn ôl i'r carchar yr hawl statudol i gael cyfeirio'u hachos at y Bwrdd Parôl. Caiff pob unigolyn sydd â dedfryd benagored ac estynedig eu prosesu dan weithdrefnau galw'n ôl safonol.**
- Galw unigolion yn ôl i garchar ar frys. **Pan fo'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd neu unigolyn penodol yn cael ei asesu'n risg sydd ar fin digwydd, gall darparwyr prawf ofyn am gael galw unigolyn yn ôl ar frys. Fel hyn, mae modd sicrhau y caiff yr heddlu wybod o fewn dwy awr bod y drwydded wedi'i dirymu ac, felly, bod ganddynt yr hawl i arestio'r unigolyn a'i anfon yn ôl i'r carchar.Caiff dedfrydau penodol eu prosesu i gyd fel galwadau yn ôl i'r carchar ar frys.**

Mae darparwyr prawf yn gyfrifol am ysgogi penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl a gaiff eu cyflwyno i Adran Gwaith Achos Gwarchod y Cyhoedd (y PPCS) mewn adroddiad galw unigolyn yn ôl i garchar a elwir Rhan A.  Mae'r PPCS yn gweithio yn y Grŵp Gwarchod y Cyhoedd yn HMPPS a nhw sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i awdurdodi galw unigolyn yn ôl i'r carchar ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Mae rôl y PPCS yn ganolog i'r broses galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Yn ogystal ag awdurdodi a phrosesu'r holl alwadau'n ôl i garchar (gan gynnwys galwadau'n ôl brys), mae'n rhoi cyngor i swyddogion cyfrifol a rheolwyr ar drothwyon galw'n ôl; gall, os asesir ei fod yn angenrheidiol, newid math yr alwad yn ôl; mae'n rheoli'r broses ar gyfer cyfeirio at y Bwrdd Parôl achosion statudol o alw'n ôl ac yn arfer pŵer gweithredol yr Ysgrifennydd Gwladol i ailryddhau carcharorion penodol a elwir yn ôl.


## 1.4 Ffeithiau a data allweddol

30 Mehefin 2020 roedd yna 9,211 o garcharorion oedd wedi'u galw'n ôl i garchar gan ddarparwyr prawf. Roedd hyn yn 12 y cant o holl garcharorion y carchar. Dengys nifer y carcharorion a alwyd yn ôl rôl ganolog y penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar mewn arferion prawf ac wrth arfer cyfrifoldeb darparwyr prawf i warchod y cyhoedd. At ddibenion yr adolygiad hwn, fodd bynnag, bu i ni amcangyfrif y gyfradd galw unigolyn yn ôl i garchar trwy rannu nifer y galwadau'n ôl a wnaed ym mhob chwarter gyda'r llwyth achos ôl-ryddhau ar ddiwedd y chwarter (am ragor o wybodaeth, gweler Atodiad 2 Methodoleg). Dengys Ffigur 1 y gyfradd galw'n ôl amcangyfrifedig hon er 2015 wedi'i gosod yn erbyn y llwyth achos goruchwylio ôl-ryddhau.

---

[7] Rhoddodd adran 226a *Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003* y grym i farnwyr i roi dedfrydau estynedig i ddiffynyddion sy'n oedolion er gwarchod y cyhoedd. Rhaid i'r diffynnydd fod wedi cyflawni trosedd dreisiol neu rywiol a restrir yn atodlen 15 y ddeddf a rhaid cael ei asesu gan y barnwr i fod yn beryglus (risg sylweddol i'r cyhoedd o gyflawni troseddau penodedig eraill). Caiff y rhai a ddedfrydir i lai na 10 mlynedd eu rhyddhau ar drwydded dwy ran o dair o'r ffordd drwy eu dedfryd. Y Bwrdd Parôl sy'n penderfynu rhyddhau'r rhai sydd yn y carchar am fwy na 10 mlynedd Gellir ymestyn cyfnod y drwydded hyd at bum mlynedd am drosedd dreisgar ac wyth mlynedd am drosedd rywiol.

## Ffigur 1




daeth y cynnydd yn y llwyth achos rhwng 2015 a 2017 yn sgil gweithredu*Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014*a'r cynnydd yn sgil hynny yn nifer yr unigolion a ryddhawyd ar drwydded.Er i nifer yr unigolion a alwyd yn ôl gynyddu yn y lle cyntaf yn syth ar ôl gweithredu Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014, ni chynyddodd eu nifer ar yr un raddfa â chyfanswm y llwyth achos ôl-ryddhau. Golygodd hyn y disgynnodd cyfradd gyffredinol y galw'n ôl yn ystod 2015/2016. Yn adolygiad annibynnol Arolygiaeth Prawf EM o achos Joseph McCann, bu i ni asesu effaith mentrau polisi mewn perthynas â charcharu er mwyn gwarchod y cyhoedd[8]a threfniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i garchar[9]ar nifer yr  unigolyn a alwyd yn ôl i'r carchar rhwng 2015 a 2017.  Pwysleisiodd y polisïau hyn ystyriaeth fel mater o drefn drefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar cyn dechrau unrhyw alw'n ôl. Nid yw'n bosib profi achosiaeth ond ein barn ni oedd bod y gostyngiad yng nghraddfa'r galw'n ôl  ar ôl 2016 yn gysylltiedig â'r polisïau hyn. Er 2018, mae nifer yr achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar wedi codi eto, 12 y cant yn 2018/2019 a 9 y cant arall yn 2019/2020. Unwaith eto, nid oes modd sefydlu achosiaeth mewn perthynas â'r codiadau hyn ond barn glir uwch-reolwyr a staff gweithredol prawf yw bod y cynnydd er 2018 yn gysylltiedig â chyhoeddi adolygiad proffil uchel Arolygiaeth Prawf EM o achosion, megis Leroy Campbell [10]a'r

---

[8]Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM(2017). *Cynllun Gweithredu carchariad er Gwarchod y Cyhoedd.*

[9]Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2017). *Alternatives to Recall guidance.* HMPPS. (2017).  *Pecyn briffio'r tîm Trefniadau Amgen i Alw Unigolyn yn ôl i'r Carchar.*

[10]Arolygiaeth Prawf EM (2018). *Independent review of the case of Leroy Campbell: final report.*

cyhoeddusrwydd ynghylch Joseph McCann. Ystyrir bod gweithredu'rRPFyn 2019, gyda'i bwyslais o'r newydd bod gwarchod y cyhoedd wrth galon penderfynu
galw'r unigolion yn ôl, hefyd yn ffactor pwysig.

Dengys y wybodaeth fwyaf diweddar am alw unigolion yn ôl i'r carchar fod y duedd o gynnydd yn nifer yr unigolion a elwir yn ôl i'r carchar wedi'i chynnal, er bod graddfa'r cynnydd wedi arafu.Rhwng 01 Ebrill 2019 a 31Mawrth 2020, rhyddhawyd 58,520 o oedolion ar drwydded o garchar a'u goruchwylio gan ddarparwyr prawf. Roedd cyfartaledd o 70,136 y chwarter (sy'n cynnwys achosion PSS, na chânt eu galw'n ôl) yng nghyfanswm nifer yr achosion ôl-ryddhau a reolir gan ddarparwyr prawf yn ystod y cyfnod hwn. 27,025 oedd cyfanswm nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar am y cyfnod, cyfartaledd o 6,756 y chwarter. Roedd cyfartaledd cyfradd galw unigolion yn ôl[11]yn 10 y cant yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y 6,690 o unigolion a alwyd yn ôl yn chwarter olaf 2019/20 yn gynnydd o wyth y cant ar y nifer a alwyd yn ôl yn yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.Roedd wyth y cant o'r unigolion a alwyd yn ôl a wnaed yn 2019/2020 yn ferched. Er bod rhai sefydliadau'n monitro achosion o alw'n ôl mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig eraill, ni chaiff y wybodaeth hon ei chasglu a'i chyfleu'n genedlaethol fel mater o drefn.Gweithredwyd modelau cyflawni eithriadol yn Ebrill 2020 yn sgil COVID-19. Nid yw'r data am y cyfnod hwn ynghylch achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar wedi'u cyhoeddi ond adroddodd uwch-reolwyr yn ystod ein hadolygiad fod cyfraddau galw unigolion yn ôl i'r carchar wedi aros yn sefydlog ac, mewn rhai achosion, wedi gostwng rhyw fymryn.

## 1.5 Adroddiadau arolygu a phroffiliau carcharorion a elwir yn ôl i'r carchar

Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf EM arolwg *Adsefydlu ôl-drawsnewid*o benderfyniadau gorfodi a galw unigolion yn ôl i'r carchar yn 2017/2018.[12]Ar y pryd, roedd ynadon ac eraill wedi mynegi nad oedd ganddynt hyder mewn arferion gorfodi. Yr hyn yr oeddem yn ganolbwyntio arno fwyaf oedd gwaith gorfodi cymunedol ond bu i ni, hefyd, adolygu 52 o achosion trwyddedau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Er ein bod yn bryderus am waith gorfodi cymunedol a phenderfyniadau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol., bu i ni farnu fod bron i holl benderfyniadau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i alw unigolion yn ôl i'r carchar yn briodol.

Ym Mai 2019, cynhyrchodd Grŵp Sicrhau Systemau a Gweithredol (yr OSAG) yr HMPPS*waith Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol o reoli troseddwyr a alwyd yn ôl i'r carchar: adroddiad thematig terfynol*.[13]Adolygodd yr adroddiad waith rheoli'r achosion oedd wedi eu galw'n ôl i'r carchar, yn ogystal â'r penderfyniad i'w galw'n ôl. Dadansoddodd dros 414 o achosion a chanfod bod gwaith rheoi achosion cyn rhyddhau unigolyn o'r carchar ac wedi hynny, yn aml yn annigonol, er bod y penderfyniad terfynol i alw unigolyn yn ôl i'r carchar fel arfer yn briodol. Ymhlith y meysydd a nodwyd roedd gwaith cyn-ryddhau gwael; mynediad anghyson at raglenni a gwasanaethau; a gwaith cynllunio rheoli risg annigonol mewn sawl achos. Amlygodd hefyd y ffaith nad oedd proses sicrhau ansawdd i adolygu penderfyniadau galw unigolion yn ôl i'r carchar ac ystyried yn brydlon drefniadau amgen i garchar.

Yn 2018, cynhyrchodd HMPPS grynodeb dadansoddol yn dangos bod gan garcharorion a alwyd yn ôl i'r carchar risg uwch a aseswyd o niwed difrifol a mwy o anghenion cymhleth na'r carcharorion eraill at ei gilydd.[14]Dangosodd cyfweliadau ac arolygon bod carcharorion a alwyd yn ôl i'r carchar o'r

---

[11]Cafwydy gyfraddamcangyfrifedigo ran galw unigolyn yn ôl i'r carchar trwy rannu nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar mewn unrhyw chwarter gyda'r llwyth achos ôl-ryddhau ar ddiwedd y chwarter. Amcangyfrifir pob cyfeiriad at gyfradd galw unigolion yn ôl i'r carchar yn ôl y cyfrifiad hwn.

[12]Arolygiaeth Prawf EM (2018). *Enforcement and Recall*.

[13]Grŵp Sicrhau Ansawdd Systemau a Gweithredol yr HMPPS. (Mai 2019). *CRC management of offenders recalled to custody: final thematic report.* Llundain: HMPPS.

[14] Fitzalan Howard, F., Travers, R., Wakeling, H., Webster C. and Mann, R. (2018). *Understanding the process and experience of recall to prison*. Llundain:[Crynodeb Dadansoddol yr HMPPS]

farn ei bod yn annheg eu bod wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar ac nad oeddynt wedi cael digon o wybodaeth am benderfyniadau a wnaed yn eu cylch na'u cynnwys ddigon ynddynt. Datguddiodd cyfweliadau gyda sampl bychan o swyddogion cyfrifol rwystrau canfyddedig rhag bwrw ymlaen gydag achosion yn gadarnhaol yn dilyn galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Ymhlith y rhain roedd dim mynediad at ymyraethau na llety. Bu iddynt nodi hefyd bod y ffaith nad oedd cymhelliant i gael eu goruchwylio'n ffactor allweddol mewn canlyniadau negyddol. Daeth y crynodeb i'r casgliad y dylid gwella ansawdd y berthynas oruchwyliaethol a chyfathrebu er mwyn gwella'r cyfle o ganlyniadau cadarnhaol i garcharorion a elwir yn ôl i'r carchar.

## 1.5 Nodau ac Amcanion

Ceisia'r adolygiad hwn ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Ydi'r prosesau o amgylch galw unigolyn yn ôl i'r carchar wedi'u cyfatebu'n gywir â lefelau priodol o risg o niwed difrifol?
- Ydyw swyddogion cyfrifol a'u rheolwyr llinell yn gwneud y dewisiadau cywir ynghylch galw unigolyn yn ôl i'r carchar, yn unol â'r canllawiau? Ydynt yn deall yr hyn y mae'r canllawiau hyn yn ei olygu?
- Pa effaith y mae polisi cenedlaethol wedi'i chael ar benderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar? Beth yw effaith troseddau pellach difrifol ac adolygiadau achos proffil uchel?
- A oes diwylliant o osgoi risg mewn perthynas â gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac, os oes, beth yw'r effaith?
- Faint o oruchwyliaeth mae'r rheolwyr yn ei wneud o'r penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac a yw hyn wedi'i osod ar y lefel gywir ac yn cael ei arfer yn gywir?
- A oes gan uwch-reolwyr a staff gweithredol ddealltwriaeth gyson o feini prawf ac arferion galw unigolyn yn ôl i'r carchar?
- Sut caiff penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a chyflwyno rhybudd eu monitro a'u sicrhau o ran ansawdd?

## 1.6 Amlinelliad yr adroddiad

| Pennod | Cynnwys |
|---|---|
| 2. Trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar a gwneud y penderfyniad hwnnw | Gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar<br>Y rhesymau dros alw unigolyn yn ôl i'r carchar<br>Trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar<br>Amrywiadau yn y trothwy |
| 3. Rhybuddion am dorri amodau trwydded a threfniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar | Rhybuddion am dorri amodau trwydded<br>Cysondeb gwneud penderfyniadau ynghylch rhybuddio, cofnodi a chyfathrebu<br>Trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar<br>Effeithiorwydd rhybuddion a threfniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar |
| 4. Proses galw unigolyn yn ôl i'r carchar: materion allweddol eraill | Galw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau<br>Cyrffyw cyfyngu i'r cartref<br>Sicrwydd ansawdd ac anghymesuredd |

# 2. Trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar a gwneud y penderfyniad hwnnw

Yn y bennod hon rhoddir ystyriaeth i'r broses o wneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a dadansoddi pam y gwneir penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl. Mae'n ystyried sut caiff penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar eu gwneud ac a gymhwysir y trothwy galw'n ôl yn gyson, mewn sefydliadau a rhyngddynt. Yn benodol, mae'n adolygu'r effaith a gaiff gweithredu'rFframwaith Polisi Galw'n Ôl, Adolygu ac Ailryddhau Unigolyn a Alwyd yn Ôl 2019 ar wneud penderfyniadau. Yn olaf, mae'n edrych ar effeithlonrwydd galw unigolyn yn ôl i'r carchar mewn perthynas â gwarchod y cyhoedd a gwella cydymffurfiaeth unigolyn a ryddheir ar drwydded.

## 2.1 Gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.

Darparwyr prawf sy'n gyfrifol am benderfynu a gaiff unigolyn ei alw'n ôl i'r carchar. Mae'r penderfyniad i ddirymu trwydded unigolyn yn un difrifol. Mae ganddo ganlyniadau uniongyrchol i'r person ar drwydded a gall fod yn weithred dyngedfennol wrth warchod yn uniongyrchol ddioddefwyr posib a'r cyhoedd. Mae'n hanfodol, felly, bod y penderfyniadau'n gyson, trefnus a theg.Mae'r broses sydd â'r nod o sicrhau hyn, yn adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, yn debyg ond mae gwahaniaethau sylweddol.

Yn y ddau sefydliad, mae'r swyddog cyfrifol yn cwblhau adroddiad safonol Rhan A ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac mae uwch-swyddog prawf yn ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno i'r PPCS o fewn 24 awr i'r penderfyniad gael ei wneud. Yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, mae gofyn hefyd i brif swyddogion cynorthwyol gadarnhau eu bod yn cytuno gyda'r penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Yn ogystal â chadarnhau'r penderfyniad i alw unigolyn yn ôl, mae ffurflen Rhan A yn ei gwneud yn glir fod cadarnhad y prif swyddog cynorthwyol hefyd yn gymeradwyaeth o ansawdd a chynnwys cyffredinol yr adroddiad.

Mae cytundeb y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ei gwneud yn ofynnol bod uwch-swyddogion prawf yn cymeradwyo adroddiadau ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar yng nghyswllt achosion o risg isel neu ganolig o niwed difrifol cyn eu cyflwyno i'r PPCS.Gan mai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn unig sy'n rheoli troseddwyr mewn perygl o niweidio'n ddifrifol, rhaid i brif swyddog cynorthwyol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gymeradwyo unrhyw achos gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac sy'n asesu'r risg o niwed difrifol fel un sy'n codi i uchel neu uchel iawn.Yn ymarferol, cawsom amrywiadau yn y modd y mae gwahanol Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithredu'r model hwn. Mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, uwch-swyddogion prawf yn unig oedd yn cymeradwyo penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar tra mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol eraill, uwch-reolwyr a gymeradwyai'r penderfymiad.Mewn un Cwmni Adsefydlu Cymunedol, cododd pryderon ynghylch nifer isel yr unigolyn a alwyd yn ôl i'r carchar; arweiniodd hyn at newid mewn arferion gyda'r holl benderfyniadau ynghylch gorfodi trwyddedau'n cael eu hawdurdodi gan uwch-reolwyr. Cyfrannodd y newid hwn mewn arferion at gynnydd o 26 y cant rhwng 2018/2019 a 2019/2020 yn nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar.Yn ogystal â bod yn enghraifft o reolaeth effeithiol, dengys hyn ei bod yn angenrheidiol, yn ein barn ni, bod uwch-reolwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â'r penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.


Nid yw rheolwyr y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweld ei bod yn angenrheidiol ac effeithiol i uwch-reolwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gymeradwyo'u penderfyniadau mewn perthynas â throseddwyr y mae risg uchel y byddant yn niweidio.Nid oedd yr un achos y bu i ni ei adolygu'n ymwneud á'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cymweadwyo achos gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol fel rhan o'r broses galw unigolyn yn ôl i'r carchar ac ni allai'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ddweud sawl achos yr oedd hyn yn berthnasol iddo. Bu gweithredu'r model cyflawni prawf unedig newydd yng Nghymru yn Rhagfyr 2019 wneud gwneud i ffwrdd â'r angen am y rhan

hon o'r broses galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Bydd ymestyn y model i 10 is-adran rhanbarthol ym Mehefin 2021 yn peri i hyn gael ei efelychu yn Lloegr.

Mae'r penderfyniad i alw unigolyn â dedfryd benodol yn ôl i'r carchar yn cynnwys penderfynu p'run ai i ddechrau achos safonol o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ynteu un am gyfnod sefydlog. Cyfrifoldeb y darparwyr prawf yw'r penderfyniad hwn yn bennaf. Fodd bynnag, wrth adolygu'r achos, mae gan y PPCS yr awdurdod i droi achos o alw unigolyn yn ôl am gyfnod sefydlog yn achos safonol neu achos safonol yn un o alw unigolyn yn ôl am gyfnod sefydlog. Y risg o niwed difrifol a rheoli'r defnyddiwr gwasanaeth yn y gymuned yw'r meini prawf allweddol ar gyfer y penderfyniad hwn ac a nodir yn Adroddiad Rhan A ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar.Defnyddir achosion o alw unigolyn yn ôl am gyfnod sefydlog gan ddarparwyr prawf yn bennaf mewn achosion lle mae'r cydymffurfio ag amodau yr adroddir arnynt yn wael.Rhaid i swyddogion cyfrifol gydbwyso'r posibilrwydd o golli llety neu wasanaethau gyda'r risg o aildroseddu a'r gofyn i weithredu'r drwydded. Wrth i ni adolygu achosion, defnyddiwyd achosion o alw unigolion yn ôl i'r carchar am gyfnod sefydlog yn briodol i sefydlogi ffyrdd o fyw anhrefnus ac ailsefydlu cydymffurfiaeth cyn ailryddhau.

Dengys Ffigur 2 gyfran yr achosion safonol o alw unigolion yn ôl, y rhai am gyfnod sefydlog a'r rhai ar frys er 2015/2016.

**Ffigur 2.**Nifer yr achosion o alw'n ôl yn ôl math yr achos a math y darparwr.




Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn goruchwylio'r holl achosion sy'n peri risg uchel o niwed ac, felly, nid yw'n syndod ei fod yn mynd ati i weithredu mwyafrif achosion safonol o alw unigolion yn ôl i'r carchar. Yn yr un modd, gan mae achosion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn unig sy'n preswylio mewn eiddo cymeradwy, lle mae'r bobl sy'n peri'r risg uchel dan oruchwyliaeth, mae disgwyl y bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am fwyafrif yr achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys.

Roedd y gostyngiad yn nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar ar ôl 2016/2017 fwyaf amlwg ar gyfer achosion safonol o alw unigolyn yn ôl i'r carchar, a hynny yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Syrthiodd nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar am gyfnod sefydlog yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ond codi yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Mae hyn yn cryfhau'r farn bod gan y trefniadau amgen i'r strategaeth galw unigolyn yn ôl i'r carchar fwy o effaith wedi bod ar arferion galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol nac yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (gweler pennod 3).Mae achosion safonol o alw unigolyn yn

ôl i'r carchar o ran Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi cynyddu er 2018.Mae achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar am gyfnod sefydlog wedi cynyddu rhyw fymryn yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a gostwng rhyw fymryn mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.Mae'r cynnydd hwn yn y defnydd a wneir o achosion safonol o alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn unol â'r canolbwyntio o'r newydd ar warchod y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar er 2018.

Gall darparwyr prawf ofyn am gael galw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys mewn achosion lle asesir bod risg uniongyrchol o niwed difrifol a bod rhagor o droseddau'n hynod debygol. Rhaid i unigolion a ddedfrydwyd i garchar am gyfnod penagored; achosion lefel 3 Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaeth (Mappa); ac achosion gwarchod y cyhoedd critigol a awdurdodir gan y PPCS, gael eu galw'n ôl i'r carchar ar frys. Caiff achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys eu prosesu gan ddarparwyr prawf yn cysylltu â'r PPCS yn uniongyrchol. Bydd swyddogion yn y PPCS yn penderfynu a yw'r trothwy wedi'i fodloni ac, os ydyw, yn awdurdodi i unigolyn gael ei alw'n ôl i'r carchar ar frys. Rhoddir gwybod i'r heddlu bod unigolyn wedi ei alw'n ôl i'r carchar ar frys o fewn dwy awr i gyflwyno'r achos hwn i'r PPCS.Mae gan ddarparwyr Prawf 24 awr i gyflwyno'r adroddiad ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar ôl i'r PPCS gytuno gyda'r cais i wneud hyn ar frys. Caiff yr holl unigolyn a elwir yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau swyddfa eu prosesu fel achosion brys ac mae gan y PPCS system ddylestwydd 24 awr i ymateb i geisiadau.

Cefnogir y broses o wneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar gan y cyswllt rhwng darparwyr prawf a'r PPCS, sy'n awdurdodi galw unigolyn yn ôl ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw'r PPCS yn gyfrifol am benderfynu a yw'r penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn briodol ond mae'n gyfrifol am sicrhau bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau'r penderfyniad. Mae perthynas waith effeithiol rhwng darparwyr prawf a'r PPCS. Mae uwch-reolwyr a rheolwyr gweithredol lleol yn gweld gwerth yng nghanllawiau'r PPCS ar drothwyon a chyngor.Caiff achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys, pan fo raid, eu prosesu'n effeithiol. Mae staff gweithredol hefyd yn ymgynghori â'r PPCS i drafod achosion posib o alw unigolyn yn ôl i'r carchar gyda gweithiwr achos y PPCS. Nid yw'r PPCS yn sicrhau'n ffurfiol ansawdd yr achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ond mae'n defnyddio'r adolygiadau a wnaeth o adroddiadau a gyflwynwyd ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar a thrafodaethau ar achosion i sicrhau bod trothwyon galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn gyson.

## 2.2 Y rhesymau dros alw unigolyn yn ôl i'r carchar

Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, parodd darparwyr prawf i 27,025 o unigolion gael eu galw'n ôl i garchar. O'r rhain, roedd 38 y cant o'r achosion hyn yn safonol; 37 y cant yn gyfnod sefydlog;17 y cant (4 y cant ar gyfer dedfrydau penagored) ar frys; ac 8 y cant am dorri'r cyrffyw cyfyngedig i'r cartref. O ran eu hunion natur, mae achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys yn arwydd yr aseswyd bod risg uniongyrchol o niwed difrifol. Caiff achosion safonol o alw unigolion yn ôl i'r carchar hefyd eu hannog yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch y risg o niwed difrifol a rhagor o droseddu. Seilir yr asesiad hwn ar ymddygiad unigolyn ar drwydded. Yn ffigyrau 2019/2020 pan alwyd unigolion yn ôl i'r carchar, nodwyd bod peidio â chydymffurfio ag amodau'r drwydded yn rheswm dros eu galw'n ôl mewn 73 y cant o achosion. Gallai hyn gynnwys torri amod trwydded, megis methu rhoi gwybod i swyddog cyfrifol am berthynas newydd neu gyswllt sydd wedi'i wahardd â dioddefwyr neu ddioddefwyr posibl, ac a nodir ar drwydded ryddhau. Mewn nifer o achosion, felly, mae peidio â chydymffurfio yn uniongyrchol gysylltiedig â chynnydd yn y risg o niwed difrifol. Mewn 34 y cant o achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ystod yr un cyfnod, nodwyd methu cadw cysylltiad â'r swyddog cyfrifol fel rheswm. Gallai'r methiant hwn i roi gwybod, fel y'i cyfarwyddwyd, fod yn arwydd o gynnydd yn y risg o niwed difrifol. Fodd bynnag, yn aml mae'n ymwneud yn uniongyrchol â phatrymau ymddygiad sydd wedi hen ymwreiddio, yn cael eu cynnal gan broblemau caethiwed a lles. Roedd y ddau reswm hyn dros alw unigolyn yn ôl i'r carchar - y cynnydd yn y risg o niwed difrifol a methu cadw cysylltiad â'r swyddog cyfrifol - yn amlwg yn ein hadolygiad manwl o 50 achos o rybuddio a galw unigolion yn ôl i'r carchar.

### *a) Galw unigolyn yn ôl i'r carchar am fethu cadw cysylltiad â'r swyddog cyfrifol*

Mewn ychydig dan hanner yr achosion y bu i ni edrych arnynt, nid oedd yr unigolyn oedd ar drwydded mewn cysylltiad â'r swyddog cyfrifol adeg y penderfynwyd ei alw'n ôl i'r carchar. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd y diffyg cydweithredu ag amodau ymbresenoli'n rhan o batrwm

ymddygiad oedd wedi hen ymwreiddio, gyda'r canlyniad bod yr unigolyn i mewn ac allan o'r carchar yn ystod cyfnod y drwydded. Mae'r achosion hyn sy'n cylchdroi wedi'u cysylltu'n aml â phroblemau caethiwed, iechyd meddwl a thai.Fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad oes cysylltiad â'r swyddog cyfrifol o reidrwydd yn arwydd bod cynnydd yn y risg o niwed difrifol. Gydag achosion o'r fath, mae gofyn i ddarparwyr prawf weithredu'n unol ag anghenion personol, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu a gorfodaeth. Nododd yr adolygiad achosion lle roedd darparwyr prawf yn cydbwyso'n llwyddiannus ofynion gwarchod y cyhoedd a gorfodaeth oddi fewn i gyd-destun gweithredu'n hyblyg ac ymatebol.Yn yr enghraifft ar y dudalen nesaf, dangosir bod y gofyn i wneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn:

**Enghraifft o arfer da: galw unigolyn yn ôl i'r carchar am gyfnod sefydlog yn dilyn colli cysylltiad**

Dedfrydwyd Don i saith mis o garchar am ddwyn mewn siop yn dilyn pedwerydd collfarn am ddwyn mewn siop dros gyfnod o ddeng mis. Roedd ganddo hanes o ddedfrydau byr o garchar am droseddau tebyg. Roedd ei hanes o gydweithredu â swyddogion cyfrifol yn wael ac ar ddedfrydau blaenorol roedd wedi'i alw'n ôl i garchar sawl gwaith. Roedd Don yn troseddu'n bennaf oherwydd ei fod yn gaeth i gyffuriau dosbarth A, er ei fod yn y gorffennol hefyd wedi derbyn meddyginiaeth am broblemau iechyd meddwl. Tra oedd Don yn cael ei oruchwlio ar drwydded, roedd ei swyddogion cyfrifol wedi ceisio ei gael i fynd i'r afael â'i gaethiwed. Fodd bynnag, methiant fu'r ymdrechion hyn ac aeth yn ôl i droseddu ymhellach yn gyflym. Aseswyd risg o niwed difrifol Don fel un canolig.

Roedd y cynllun cymorth a goruchwylio oedd yn ei le ar gyfer rhyddhau Don o'r dedfryd saith mis yn un cynhwysfawr. Roedd yn cynnwys llety â chymorth: ymyrraeth gan asiantaeth caethiwed, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer presgripsiwn methadon; a chymorth iechyd meddwl, gan gynnwys meddyginiaeth. Roedd y cyswllt rhwng y swyddog cyfrifol â'r asiantaethau allweddol, gan gynnwys yr heddlu, yn effeithiol, a hynny cyn i Don gael ei ryddhau o'r carchar ac wedi hynny.Achlysurol oedd cydweithrediad Don â'r cynllun goruchwylio. Gweithiai'r swyddog cyfrifol yn galed i'w annog i fynd am yr apwyntiadau, a hynny gyda'r swyddogion prawf a'r asiantaethau allweddol. Er bod Don yn methu apwyntiadau, nid oedd tystiolaeth bod y risg o niwed difrifol wedi cynyddu felly roeddid yn canolbwyntio ar ailymgysylltu yn hytrach na gorfodi. Rhoddwyd ystyriaeth i'w alw'n ol i'r carchar, ond, yn lle hynny, rhoddwyd dau rybudd am dorri amodau ei drwydded, ynghyd â chyfarwyddiadau y dylai Don gydymffurfio â'r cynllun rhyddhau.Parodd iechyd gwael Don, oedd yn gysylltiedig ag o'n defnyddio cyffuriau, iddo orfod mynd i'r ysbyty. Gweithiai'r swyffog cyfrifol yn dda gyda'r gwasanaethau meddygol a threfnwyd llety ar gyfer pan oedd yn gadael yr ysbyty. Wedi iddo adael yr ysbyty a mynd i'r llety, methodd Don gadw ei apwyntiadau â'r swyddog cyfrifol a symudodd allan o'r llety. Cysylltod y swyddog cyfrifol â'r holl asiantaethau allweddol ac â pherthnasau Don ond nid oedd yn gallu cysylltu ag o. Yn dilyn gwybodaeth gan yr heddlu y câi Don ei amau o ragor o droseddau dwyn mewn siop, trafododd y swyddog cyfrifol yr achos gyda'r rheolwr a dechrau achos i'w alw yn ôl i'r carchar am gyfnod sefydlog.Roedd lleoliad Don yn anhysbys ac roedd wedi torri amodau ei drwydded trwy fethu cadw mewn cysylltiad â'r swyddog cyfrifol. Dechreuwyd achos o'i alw'n ôl i garchar i osgoi rhagor o droseddau.

I weithredu'n unol ag anghenion unigolyn wrth wneud penderfyniad i'w alw'n ôl i garchar, rhaid dibynnu ar asesiad risg cynhwysfawr wedi'i gynnal gan y wybodaeth angenrheidiol gan asiantaethau eraill. Mae hefyd yn dibynnu ar ymarferwyr yn gallu trafod a rhannu'r gwaith o wneud penderfyniadau gyda'u rheolwyr.Yn ystod ein hadolygiad, siaradodd swydogion cyfrifol dro ar ôl tro am eu 'hofn' o fethu galw unigolion yn ôl yn syth, pe byddai a phryd byddai pryderon yn codi ynghylch cydymffurfio ac ymddygiad. Roedd ofn arnynt gael eu dal yn gyfrifol am unrhyw droseddau pellach difrifol a gyflawnid.Mae'n hanfodol cael proses gyson i wneud penderfyniadau ynghylch galw unigolyn yn ôl i'r carchar sy'n fodd i wneud penderfyniadau'n unol ag anghenion unigolyn er mwyn lleddfu'r ofn hwn a lleihau i'r eithaf ar wneud penderfyniadau lle byddir yn osgoi cymryd risg. Mae'n hanfodol hefyd bod rheolwyr i'w gweld yn cefnogi staff gweithredol wrth iddynt wneud penderfyniadau sydd yn aml yn rhai cymhleth. Dylid cofnodi'n glir y penderfyniadau hyn a wneir ar y cyd .Datganodd swyddog cyfrifol:

*"Caiff penderfyniadau eu hystyried ar y cyd gyda'm rheolwr bob amser er mwyn dod i benderfyniad y mae modd ei amddiffyn. O'r herwydd, mae gennyf hyder yn y broses o wneud penderfyniadau a cheisiaf beidio ag ystyried canlyniadau peidio â galw rhywun yn ôl i'r carchar. Rhaid i ni deimlo ein bod yn gallu gwneud penderfyniadau proffesiynol....*

### *b) Galw unigolyn yn ôl i'r carchar am beidio â chydymffurfio ag amodau ei drwydded a thystiolaeth neu arwydd o gynnydd yn y risg o niwed difrifol*

Dangosodd gwaith adolygu achosion fod penderfyniadau galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn canolbwyntio'n bennaf ar warchod y cyhoedd a dioddefwyr posibl.Lle nodwyd bod dioddefwyr neu ddioddefwyr posibl mewn perygl o niwed uniongyrchol, aethpwyd ati'n brydlon i alw unigolion yn ôl i'r carchar. Mae'r asesiad o'r risg o niwed difrifol yn ganolog i wneud penderfyniad effeithiol i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae'n dibynnu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o batrwm troseddu unigolyn a gwybodaeth am ei ymddygiad blaenorol. Mae hefyd yn dibynnu'n aml ar asiantaethau eraill yn rhannu gwybodaeth. Lle mae risg uniongyrchol o niwed difrifol, mae angen yn aml wneud penderfyniadau'n gyflym. I wneud hyn, mae gofyn i staff gweithredol fod â'r amser a'r gallu i farnu'n effeithiol. Dengys yr enghraifft isod bwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn effeithiol i wneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a gwarchod y cyhoedd.

**enghraifft o arfer da: achos safonol o alw unigolyn yn ôl i'r carchar wedi iddo beidio â chydymffurfio ag amodau ei drwydded**

Roedd Kevin yn 21 ac wedi ei ddedfrydu i dair blynedd yn y carchar am ymosod ar ei bartner. Cafodd ei ryddhau o'r carchar, yn wreiddiol ar drwydded cyrffyw cyfyngu i gartref, i gyfeiriad ei deulu. Fe'i haseswyd fel risg canolig o niwed difrifol. Roedd amodau'r drwydded yn cynnwys datgelu perthynas agos a mynd ar raglen achrededig wedi'i chynllunio i wella ei ddealltwriaeth o berthynas. Roedd pryderon ynghylch lefel aeddfedrwydd Kevin a chanfuwyd bod ganddo anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Trefnodd y swyddog cyfrifol gyfeiriad iechyd meddwl priodol ac roedd yr apwyntiadau goruchwylio, yn cynnwys ymweliadau â'r cartref, yn sensitif i'w anableddau dysgu.

Dau fis ar ôl i Kevin gael ei ryddhau, nododd gwiriadau fel mater o drefn yr heddlu ei fod yn ymwneud â merch ifanc oedd yng ngofal yr awdurdod lleol. Cysylltodd y swyddog cyfrifol â gofal cymdeithasol plant am wybodaeth berthnasol a siarad gyda Kevin am y pryderon a godwyd. Gwadodd unrhyw berthynas neu unrhyw gysylltiad â merched ifainc. Cadarnhaodd y wybodaeth gan ofal cymdeithasol plant bod y ferch ifanc mewn perthynas ond eu bod yn methu sefydlu gyda phwy. Ar ôl ymgynghori gyda'i reolwr a chysylltu eto â gofal cymdeithasol plant, gan gynnwys cyfnewid llun, sefydlodd y swyddog cyfrifol fod Kevin mewn perthynas gyda'r ferch ifanc fregus mewn gofal. Roedd hefyd dystiolaeth o ymddwyn yn rheolaethol.Yn wyneb y risg uniongyrchol i'r ferch ifanc, anonestrwydd Kevin a'i gollfarnau blaenorol am drais yn y cartref, aethpwyd ati i drefnu achos safonol o alw unigolyn yn ôl i'r carchar a galwyd Kevin yn ei ôl am dorri amod ei drwydded, sef bod yn rhaid iddo ddatgelu bob perthynas agos sy'n datblygu.

Wrth i ni adolygu achosion, datgelwyd bod perthynas effeithiol yn ei lle rhwng darparwyr prawf ac yn enwedig felly'r heddlu i sicrhau fod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael. Mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Llundain yn cynnal gwiriadau fel mater o drefn yr heddlu ar bob achos yn ystod y cyfnod goruchwylio. Derbynia HMPPS Cymru wybodaeth am ddigwyddiadau adroddadwy yn uniongyrchol gan yr heddlu; ac yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol gogledd-ddwyrain Lloegr, caiff gwybodaeth am gamdriniaeth ddomestig o'r un cyfnod ei chyfnewid fel mater o drefn trwy'r canolfannau diogelu amlasiantaeth.

Er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol i alw unigolyn yn ôl i'r carchar, mae angen amser ar y swyddogion cyfrifol i gael ac ystyried yr holl wybodaeth a'r patrymau ymddygiad perthnasol. Mae trafodaethau gyda rheolwyr a chael eu cefnogaeth hefyd yn hanfodol. Nid yw penderfyniadau i alw

unigolyn yn ôl i'r carchar bob amser yn syml a didrafferth ac, yn aml, fe'u gwneir mewn sefyllfaoedd dan bwysau.Gwnaeth un uwch-swyddog prawf y sylw:

*"Mae penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn cymryd amser ac yn defnyddio adnoddau sylweddol yn aml os nad ydynt yn amlwg o ran cynnydd yn y risg o niwed difrifol. Efallai nad oes raid galw unigolyn yn ôl i'r carchar am droseddu ymhellach, megis dwyn, ond yn aml, mae angen edrych i mewn i ystyr yr ymddygiad o ran iechyd meddwl, caethiwed a pherthynas. Mae angen amser ar gyfer hyn. Yn aml rhaid i chi roi'r cyfle i bobl fethu ond nid i gyflawni troseddau pellach difrifol . Weithiau mae'n anodd iawn cael y cydbwysedd yn gywir".*

Siaradodd y rhan fwyaf o swyddogion cyfrifol yn gadarnhaol am gefnogaeth y rheolwyr sydd ar gael mewn perthynas â galw unigolyn yn ôl i'r carchar ond roedd rhai'n teimlo bod y cyfyngiadau ar amser a'r llwyth gwaith yn peri i bobl oedd ynghlwm â'r broses benderfynu fod dan straen diangen. Dengys nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar gan ddarparwyr prawf bod galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn rhan allweddol o arferion prawf. Mewn rhai sefydliadau, roedd prosesau yn eu lle, megis trefniadau dyletswydd swyddfa er mwyn rhagweld galw unigolyn yn ôl i garchar a sicrhau bod gan swyddogion cyfrifol yr amser angenrheidiol i wneud penderfyniadau ystyrlon. Adroddodd staff gweithredol eraill am drefniadau mwy ad hoc. Dylid blaenoriaethu prosesau gweithredol i ganiatáu'r amser angenrheidiol i wneud penderfyniadau effeithiol i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.

## 2.3 Trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar

Yn yr RPF diwygiedig ceir manylion meini prawf galw carcharorion â dedfrydau penagored a phenodol (gweler adran 1.3) yn ôl i'r carchar. Mae'r meini prawf yn canolbwyntio ar arwyddion neu dystiolaeth o gynnydd mewn risg o niwed difrifol. Mae'r RPF hefyd yn nodi sefyllfaoedd penodol, megis arestiadau pellach a throseddwyr sy'n meddwl am droseddau difrifol pellach, fel enghreifftiau o pryd y dylid ystyried galw unigolyn yn ôl i'r carchar.

Roedd yr RPF,  a gyflwynwyd yn wreiddiol gan HMPPS yn Ebrill 2019 a'i ailgyflwyno yn Chwefror 2010, wedi ei weithredu gan yr holl ddarparwyr prawf y bu i ni eu harolygu. Yn rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a HMPPS Cymru, roedd tystiolaeth y cynhaliwyd sesiynau briffio gyda staff, yn cynnwys cyflwyniad fideo gan y prif swyddog prawf ar alw unigolion yn ôl i'r carchar. Mae'r RPF yn fanwl a chyhoeddodd rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol hefyd eu canllawiau arwain ei hunain. Amlygodd y canllawiau hyn y goeden galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn EQuiP[15], sy'n arwain ymarferwyr trwy'r meini prawf allweddol i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, roedd y cyfathrebu'n anghyson. Roedd tystiolaeth o gyfleu'r RPF ac, mewn rhai sefydliadau, roedd rhai canllawiau arwain wedi'u cyflwyno a sesiynau briffio wedi'u cynnal.Mewn sefydliadau roedd gweithredu'n seiliedig ar sicrhau bod yr RPF ar gael a'i drafod mewn cyfarfodydd tîm.

Adlewyrchwyd y dull unigol ac anghyson hwn o gyfleu'r RPF yn yr ymwybyddiaeth ohono a ddangoswyd gan staff gweithredol ar draws y sefydliadau. Yngh Nghwmnïau Adsefydlu Cymunedol Llundain, er enghraifft, roedd staff gweithredol yn ymwybodol o weithredu'r RPF ond ni châi hyn ei adlewyrchu ar draws yr holl Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Roedd staff gweithredol yn HMPPS Cymru a rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ymwybodol bod meini prawf gwahanol i ddefnyddwyr gwasanaeth oedd â dedfryd penodol a phenagored ond, at ei gilydd, roeddynt yn anscir ynghylch y manylion penodol Gwyddai ymarferwyr am y coed penderfyniadau yn y broses o alw unigolyn yn ôl i'r carcharoedd ar gael ar EQuiP. Mae modd cael at y rhain yn bennaf i gyfeirio atynt, er bod rhai ymarferwyr yn eu defnyddio fel mater o drefn wrth wneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.

---

[15]Mae gan EQuiP fanylion holl brosesau gweithredol yr HMPPS yn electronig  ac mae modd i'r holl staff gweithredol eu gweld. Yn ogystal â'r prosesau, mae'n cynnwys canllawiau ymarfer

Mae'r RPF yn fanwl iawn ac nid oes gofyn i'r staff gweithredol ddeall manylion bob proses mewn perthynas â galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Dylent, fodd bynnag, fod yn glir am y meini prawf penodol ar gyfer galw unigolyn yn ôl i'r carchar sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen.Nid fel hyn y mae hi ar hyn o bryd.Mae yna, fodd bynnag, ddealltwriaeth gyson ar draws sefydliadau fod trothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnydd yn y risg o niwed difrifol, cynnydd yn y risg o aildroseddu a gwarchod y cyhoedd. Mae'r cysondeb hwn yn tarddu o arferion sefydledig a gwybodaeth ymarferwyr am asesiadau risg, yn ogystal ag o'r fframwaith galw'n ôl.

Rhaid i benderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar gadw amgylchiadau unigol mewn cof, sy'n ei gwneud yn anodd sefydlu trothwy cyson ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'n anochel yr ymatebir yn wahanol i'r un achosion o dorri amodau trwydded, gan ddibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Dylai'r RPF, o'i gyfuno gyda'r hyfforddiant a'r sgiliau asesu risg angenrheidiol, sicrhau y gweithredir yn gyson wrth wneud penderfyniadau. Wrth i ni adolygu 50 o achosion, datgelwyd mai gwarchod y cyhoedd yw'r prif ystyriaeth yn gyson. Datgelodd hefyd, fodd bynnag, bod cymhlethdod yr achosion yn golygu y bydd y dyfarniadau sy'n ofynnol mewn perthynas â phenderfynu galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn rhai agos. Dangosir y pwynt hwn yn yr achos a nodir isod . Cytunodd arolygwyr gyda'r pendefyniad i fynd ati i  alw unigolyn yn ôl i'r carchar, o ystyried y patrymau ymddygiad blaenorol a'r hanes o drais domestig. Adeg y penderfyniad, fodd bynnag, nid oedd dioddefwr posibl wedi'i adnabod ac, yn yr un modd, gellid fod wedi cyfiawnhau oedi rhag galw'r defnyddiwr gwasanaeth yn ôl i'r carchar i geisio rhagor o wybodaeth.

**Astudiaeth achos: dyfarniadau galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn blaenoriaethu gwarchod y cyhoedd**

Dedfrydwyd Ben i garchar er mwyn gwarchod y cyhoedd am gyfnod o 21 mis am bum trosedd lladrata.Roedd eisoes wedi'i ryddhau ond wedi'i alw'n ôl yn dilyn pryderon ynghylch ei ymddygiad ac oherwydd nad oedd yn cydymffurfio ag amodau ei drwydded.Aseswyd Ben fel risg uchel o niwed difrifol i'r cyhoedd.Roedd ganddo hanes o fod yn perthyn i gangiau a gwerthu cyffuriau.Roedd ganddo hefyd hanes o drais domestig.

Wedi iddo gael ei ryddhau eto o'r carchar, fe'i rhoddwyd mewn eiddo cymeradwy. At ei gilydd, roedd yn cydymffurfio â'r apwyntiadau gyda'i swyddog goruchwylio, er bod rhyw fân dorri amodau ei gyrffyw y rhoddwyd sylw iddynt mewn apwyntiadau goruchwylio. Roedd Ben hefyd wedi cael ychydig o waith labro achlysurol. Dau fis ar ôl iddo gael ei ryddhau, caniatawyd iddo fynd gartref o'r eiddo cymeradwy am gyfnod i aros mewn cyfeiriad â berthynai i'w deulu.Gosodwyd cyrffyw am 11pm a gwyddai Ben y câi hwn ei wirio. Pan geisiodd staff yr eiddo cymeradwy gysylltu â Ben yng nghyfeiriad y teulu, rhoddwyd gwybod iddynt nad oedd yno ac na wyddys lle'r oedd. Bu iddynt geisio cysylltu ag o'n uniogyrchol ond, unwaith eto, nid oedd ymateb.

Yn wyneb ei batrwn blaenorol o droseddau treisgar, pryderon ynghylch ei gysylltiadau parhaol â gangiau a'r risg bosib i unrhyw bartner newydd, penderfynodd y rheolwr dyletswydd alw Ben yn ôl i'r carchar fel achos brys y tu allan i oriau.

## 2.4 Amrywiadau trothwy

Amlygodd staff gweithredol a rheolwyr ar draws yr holl ddarparwyr prawf ddylanwad polisi cenedlaethol, achosion proffil uchel a throseddau pellach difrifol ar drothwyon galw unigolyn yn ôl i'r carchar a gwneud penderfyniadau.

Roedd y patrwm cyffredinol a nodwyd yn y data cyffredinol - patrwm o achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn syrthio yn dilyn cyflwyno'r fenter trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn 2017 ac yna'n cynyddu yn sgil adolygiad annibynnol Campbell Arolygiaeth Prawf EM ym Medi 2018, yn amlwg yn rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a HMPPS Cymru.Roedd, fodd bynnag, amrywiadau sylweddol. Er enghraifft, cynyddodd nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar 27 y cant rhwng 2018 a 2019. Yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol Canolbarth Lloegr, cododd nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar 8 y cant yn yr un cyfnod. Mae gan Llundain, yn amlwg, broffil economaidd gymdeithasol gwahanol iawn i weddill y wlad, ond mae hwn yn wahaniaeth sylweddol. Yn ychwanegol at ddylanwad adolygiadau achosion difrifol a gwneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn unol ag anghenion unigolyn, mae'n amlwg y bu negeseuon cryf gan uwch-reolwyr i staff gweithredol flaenoriaethu gwarchod y cyhoedd wrth iddynt wneud eu penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn.Roedd y tueddiadau mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn perthynas â'r patrwm cenedlaethol yn fwy amrywiol, gyda Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol Gorllewin Swydd Efrog a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol Swydd Warwick Gorllewin Mercia ddim yn cofnodi unrhyw ostyngiadau mewn achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ystod 2017. Er 2018, mae mwyafrif y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a arolygwyd wedi gweld cynnydd. Unwaith eto, roedd amrywiadau, gydag unigolion a gâi eu galw'n ôl i'r carchar yn codi 14 y cant yn Llundain rhwng 2018 a 2019 a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol Swydd Warwick Gorllewin Mercia yn gostwng 1 y cant.

Er 2018, mae'r gyfradd gyffredinol genedlaethol o ran galw unigolyn yn ôl i'r carchar[16]wedi cynyddu.O fisoedd Ionawr i Fawrth, chwarter cyntaf 2020, 9.7 y cant oedd cyfradd gyffredinol genedlaethol galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Roedd hyn yn 1.2 pwynt canran yn uwch nag ar gyfer yr un chwarter yn 2019. Adlewyrchwyd y cynnydd hwn yn y gyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar ar draws yr holl sefydliadau y bu i ni eu hadolygu, er bod amrywiadau yng ngraddfa'r cynnydd. Nid oedd patrwm i'w weld i'r amrywiadau hyn ac nid oeddynt yn ddibynnol ar a oedd gan y sefydliad eisoes gyfradd uchel neu isel o ran galw unigolyn yn ôl i'r carchar Er enghraifft, yng Nghwmni Adsefydlu Cymunedol Gorllewin Swydd Gaer, 9.9 y cant oedd cyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn chwarter cyntaf 2020. Roedd hyn yn 1 pwynt canran yn uwch o gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Yng Nghwmni Adsefydlu Cymunedol Llundain cynyddodd y gyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar 2 bwynt canran yn yr un cyfnod i 8.3 y cant ond roedd hyn yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 9.7 y cant. Roedd amrywiadau tebyg yn rhanbarthau'r Gwasananaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd y gyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar am chwarter cyntaf 2020 yn 8.1 y cant yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol De-orllewin Lloegr a Chanol de Lloegr, oedd yn gynnydd o 0.4 y cant ar yr un chwarter yn 2019. Am yr un cyfnod, cynyddodd y gyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol Gogledd-ddwyrain Lloegr 0.5 y cant o 10.2 y cant, oedd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. [17]

Yn ogystal ag amrywiadau rhwng sefydliadau, ceir amrywiadau o fewn sefydliadau hefyd.Gall yr amrywiadau hyn fod yn sylweddol. Er enghraifft, rhwng 2018 a 2019, syrthiodd nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar yng Nhwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Warwick Gorllewin Mercia 25 y cant mewn un Uned Gyflawni Leol, tra mewn Uned arall cynyddodd 41 y cant. Yn yr un modd, yn yr un cyfnod, cynyddodd nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol Gorllewin-canolbarth Lloegr 15 y cant mewn un Uned Gyflawni Leol a gostwng 7 y cant mewn un arall. Mae'n anochel y bydd nifer yr unigolion a elwir yn ôl i'r carchar yn cael ei dylanwadu gan batrymau troseddau a gweithgarwch heddlu lleol ond dengys yr amrywiadau lleol hyn bod angen i dueddiadau galw unigolyn yn ôl i'r carchar gael eu monitro gan ranbarthau prawf a chan Unedau Cyflawni Lleol. Yng Nghwmni Adsefydlu Cymunedol Dyfnaint, Dorset a Chernyw, roedd uwch-reolwyr wedi monitro tueddiadau galw unigolyn yn ôl i'r carchar i wella arferion mewn asesu risg. Roedd hyn wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gynnydd o 26 y cant yn nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar yn 2019/2020. Mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol eraill, er bod gwybodaeth am alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn cael ei monitro, nid oedd rheolwyr wedi gwneud dim ynghylch anghysonderau mewn tueddiadau lleol o ran galw unigolyn yn ôl i'r carchar.

Mae rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn derbyn gwybodaeth rheoli chwarterol sy'n cynnwys dadansoddiad o nifer yr unigolion y mae Unedau Cyflawni Lleol yn eu galw'n ôl i'r carchar. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n cynnwys achosion o garcharu er mwyn gwarchod y cyhoedd, rhyddhau gweithredol, adroddiadau parôl ac amrywiadau mewn trwyddedau. Caiff y wybodaeth hon ei hadolygu gan uwch-reolwyr i fonitro perfformiad gwaith galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Datganodd uwch-arweinyddion bod pwysau gan y Gweinidog Cyfiawnder i ostwng nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar yn eu rhanbarthau pan weithredwyd y strategaeth trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Ni chafodd targedau perfformiad eu gosod mewn perthynas â galw unigolyn yn ôl i'r carchar ond defnyddiwyd y wybodaeth chwarterol yn bennaf yn ystod y cyfnod hwnnw i ddilyn effaith y strategaeth trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar niferoedd yr achosion hyn. Mae'r wybodaeth hon yn parhau i gael ei defnyddio i adolygu unrhyw amrywiadau yn nifer yr unigolion a elwir yn ôl i'r carchar ond roedd uwch-reolwyr yn glir na osodir terfyn uwch ar nifer yr unigolion a elwir yn ôl i'r carchar yn eu rhanbarth nhw.

---

[16]Cafwydy gyfraddamcangyfrifedigo ran galw unigolyn yn ôl i'r carchar trwy rannu nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar mewn unrhyw chwarter gyda'r llwyth achos ôl-ryddhau ar ddiwedd y chwarter. Amcangyfrifir pob cyfeiriad at gyfradd galw unigolion yn ôl i'r carchar yn ôl y cyfrifiad hwn.

[17]Gan:Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2020). *Offender management statistics quarterly: January to March 2020*. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2019). *Offender management statistics quarterly: January to March 2019*. Gwybodaeth a data wedi eu darparu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Dengys y ffigyrau fod y strategaeth trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn 2016 wedi cael effaith fwy pendant ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaetho nac ar y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.  I ryw raddau, cadarnheir hyn gan ein cyfarfodydd gyda grwpiau staff gweithredol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a ddywedodd eu bod wedi teimlo dan bwysau yn y gorffennol i osgoi galw unigolion yn ôl i'r carchar. Dywedasant bod yr hinsawdd wedi newid yn sylweddol er 2018. Cydnabu staff briodoldeb ystyried trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ond, bellach, roeddynt yn teimlo bod cydbwysedd gwell yn y trothwy mewn perthynas â gwarchod y cyhoedd.Nodwyd y cydbwysedd hwn mewn llawer o'r achosion a adolygwyd. Roedd tystiolaeth o ymdrechion rhagorol gan swyddogion cyfrifol i roi cymorth a gwasanaeth priodol yn eu lle ar gyfer unigolion ar dwydded nad ydynt yn cydymffurfio.  Yn anffodus, yn yr achosion a adolygwyd, ni chafwyd canlyniadau llwyddiannus yn sgil yr ymdrechion hyn  a chafodd yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth eu galw'n ôl i'r carchar yn y pen draw.

Er i'r staff gweithredol ddweud y bu gweithredu mwy cytbwys wrth alw unigolyn yn ôl i'r carchar, roeddynt hefyd yn rhoi gwybod yn gyson am eu hofnau o gael eu beio pe byddent yn penderfynu peidio galw troseddwr yn ôl i'r carchar a'r carcharor yn mynd ymlaen i droseddu'n ddifrifol.Cadarnhaodd swyddogion cyfrifol farn eu huwch-reolwyr hefyd ar sut gall achosion proffil uchel gael effaith ar drothwy galw unigolyn yn ôl i'r carchar.Ymhlith y sylwadau a wnaed roedd:

***'Nid ydych yn teimlo'n sicr y cewch eich cefnogi bob amser Rydych yn teimlo'n gyfrifol ond dylai galw unigolyn yn ôl i'r carchar fod yn benderfyniad a wneir ar y cyd bob amser. Mae pryder bob amser y cewch eich dal yn gyfrifol os na fyddwch yn gwneud y penderfyniad cywir.***

***"Mae ofn yn broblem yn y penderfyniad. Rydych bob amser yn pryderu y gallai rhywbeth difrifol ddigwydd. Yn aml dymuna'r heddlu alw unigolyn yn ôl i'r carchar fel nad oes yn rhaid iddynt ruthro eu hymchwiliad. Mae hyn yn rhoi pwysau ar staff prawf ac yn aml teimlant na allant gymryd risgiau".***

***"Mae'n dibynnu ar y diwylliant ar y pryd. Adeg McCann roedd ymgyrch anferth ar drefnadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Nawr mae gennym lawer mwy o unigolion yn cael eu galw'n ôl i'r carchar. Mae'n dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r hinsawdd yn cael effaith fawr.  Roeddwn yn arfer gweithio mewn Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r 'cynllwyn' oedd peidio â galw unigolion yn ôl i'r carchar oherwydd yr effaith ariannol. Ar ôl trosedd bellach ddifrifol a Leroy Campbell, roedd uwch-swyddogionn prawf yn fwy awyddus i alw unigolion yn ôl i'r carchar.***

Mae'n debygol iawn bod osgoi risgiau wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â galw unigolion yn ôl i'r carchar wedi cyfrannu at amrywiadau yn nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar, a hynny rhwng darparwyr prawf ac yn eu plith Gan fod penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, mae gwrthsefyll y diwylliant hwn yn dibynnu ar broses gyson sy'n caniatáu amser i gasglu gwybodaeth, gwneud penderfyniadau a chael cymorth rheolwyr. Nododd ein hadolygiad achosion lle galwyd unigolion yn ôl i'r carchar ond gellid ystyried y penderfyniad fel un amddiffynol yn ogystal ag un amddifynadwy.

## Astudiaeth achos: penderfyniadau agos

Dedfrydwyd Emma i garchar am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn gwarchod y cyhoedd yn dilyn trosedd o gynnau tân yn fwriadol a pheryglu bywyd. Roedd ganddi hanes o droseddu oedd wedi ei hen sefydlu gyda chollfarnau blaenorol am droseddau'n cynnwys bod ag arf yn ei meddiant ac ymosod. Roedd wedi ei rhyddhau'n flaenorol a'i galw'n ôl i garchar wedi hynny am beidio â chydymffurfio ag amodau ei thrwydded a throseddu eto, gan gynnwys bod yn feddw ac yn afreolus. Nodwyd mai iechyd meddwl a chamddefnyddio alcohol oedd y problemau allweddol oedd yn gysylltiedig â'i hasesiad o fod yn risg uchel o niwed difrifol.

Wedi i Emma gael ei rhyddhau o'r carchar, fe'i lleolwyd mewn eiddo cymeradwy. Oherwydd pryderon ynghylch faint o alcohol yr oedd yn ei yfed, fe'i rhoddwyd ar gyrffyw o 9pm ac roedd gofyn iddi bresenoli ei hun i staff yr eiddo cymeradwy ar adegau penodol yn ystod y dydd. Am chwe wythnos wedi iddi gael ei rhyddhau, cydymffurfiodd Emma, at ei gilydd, gyda threfn yr eiddo cymeradwy, gan gynnwys gydag amseroedd y cyrffyw ac roedd wedi cael gwaith gwirfoddol. Roedd profion camddefnyddio alcohol yn negyddol.

Galwyd Emma'n ôl i'r carchar wedi iddi fethu presenoli ei hun ar gyfer ei chyrffyw nos. Bu ymdrechion i gysylltu ag Emma ond ni chafwyd ymateb. Roedd neb yn gwybod lle'r oedd ac oherwydd difrifoldeb ei throseddau blaenorol a'r pryder y gallai ei hymddygiad waethygu'n gyflym iawn, cafodd ei galw'n ôl i garchar yn syth. Sefydlwyd yn hwyrach ymlaen ei bod wedi cael ei harestio am fod yn feddw ac afreolus ac roedd yng nghelloedd yr heddlu.

Dengys achos Emma eto sut gall penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar fynd naill ffordd neu'r llall. Mae hefyd yn achos lle pryder am ganlyniadau posib methu galw unigolyn yn ôl i'r carchar oedd yr elfen allweddol wrth wneud y penderfyniad.Ar y naill law, roedd ei throseddau blaenorol yn arwydd bod yna risg uniongyrchol o niwed difrifol, pe byddai ei hymddygiad yn gwaethygu. Ar y llall, roedd wedi cydymffurfio'n llwyddiannus am chwe wythnos ac wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cadarnhaol. Gwnaed y penderfyniad rhagweithiol i alw Emma'n ôl i'r carchar ar frys gan nad oedd neb yn gwybod lle'r oedd ac roedd pryder y gallai droseddu'n ddifrifol. Ar y wybodaeth oedd ar gael i'r rheolwr, gellid ystyried bod modd amddiffyn y penderfyniad hwn ond dylid fod wedi ceisio gwybodaeth ychwanegol. Yn wyneb ymddygiad blaenorol Emma wedi iddi gael ei rhyddhau, dylid fod wedi cysylltu â'r heddlu. Pe gwybyddid bod Emma wedi cael ei harestio, gellid bod wedi gwneud penderfyniad mwy ystyrlon yn hwyrach ymlaen. Amlyga'r achos bod angen trefn wrth wneud penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael.

# Rhybuddion am dorri amodau trwydded a threfniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar

Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar gysondeb arferion prawf mewn perthynas â rhybuddion am dorri amodau trwydded. Bydd yn adolygu meini prawf, gwaith cofnodi a chyfleu rhybuddion am dorri amodau trwydded. Mae'n canolbwyntio, yn arbennig, ar gysondeb ac effeithiolrwydd rhwng darparwyr prawf ac oddi fewn iddynt. Adolygir hefyd effaith trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar ddiwylliant ac arferion prawf, gan gyfeirio'n benodol at rôl eiddo cymeradwy.

## 3.1 Rhybuddion am dorri amodau trwydded

Canfyddiad allweddol yn rhan un o'r adolygiad annibynnol oedd na chafodd Joseph McCann ei alw'n ôl i'r carchar pan y dylai hyn fod wedi digwydd. O'r herwydd, yn rhan dau, rydym wedi adolygu diwylliant ac arferion darparwyr prawf mewn achosion pan bu iddynt ddefnyddio trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar a chyflwyno rhybuddion am dorri amodau trwydded yn hytrach na galw defnyddwyr gwasanaeth yn ôl i'r carchar yn syth.

Pan fo'r gwasanaeth prawf wedi gweithredu achosion o ryddhau ar drwydded, rhoddwyd bob amser rybuddion ffurfiol pan fu pryderon ynghylch ymddygiad neu dorri amodau trwydded, ond ni aseswyd bod y trothwy ar gyfer galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn syth wedi'i fodloni.Roedd darparwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi rhoi canllawiau cydymffurfio ac ymgysylltu i staff gweithredol. Roedd y rhain yn cynnwys canllawiau ar wneud penderfyniadau i alw unigolion yn ôl i'r carchar a defnyddio trefniadau amgen i'w galw'n ôl. Mae cyflwyno rhybuddion yn gysylltiedig â defnyddio trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar Rhydd canllawiau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol*Compliance and engagement on licence*[18]dempled ar gyfer llythyrau rhybudd pwrpasol i gyd-fynd â defnyddio trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.Mae hyn yn gyson â'r arferion a amlinellir yn EQuiP.Ceir cyngor tebyg yn y canllawiau ymarfer a gyflwynir gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Bod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cyfarwyddo staff gweithredol i gofnodi trafodaethau a phenderfyniadau ar ddefnyddio trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar a rhybuddion dan 'trafodaeth ar alw unigolion yn ôl i'r carchar' ar nDelius.

Gall y ffaith y cyfarwyddir staff i gofnodi rhybuddion dan benawdau galw unigolion yn ôl gyfrannu at yr anghysondeb y bu i ni ei weld mewn arferion cofnodi mewn perthynas â rhybuddion am dorri amodau trwydded.Nid oedd staff gweithredol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn glir ynghylch y disgwyliadau. Cawsom hyd i rybuddion wedi'u cofnodi dan benawdau cyswllt, gorfodaeth, a barn broffesiynol. Roedd yr anghysondeb hwn mewn arferion cofnodi'n cyfrannu at yr anhawster a gawsom i gael hyd i enghreifftiau o achosion lle roedd rhybuddion wedi'u rhoi ond na alwyd unigolyn yn ôl i'r carchar.Cawsom hyd i anghysondeb mewn perthynas â'r arferion rhybuddio yn gyffredinol. Roedd gan rai darparwyr prawf broses o gyflwyno gwahanol lefelau o rybuddion, megis rhybuddion anffurfiol, uwch swyddog prawf a phrif swyddog cynorthwyol. Cyflwynai eraill lythyrau rhybuddio generig.Roedd gwahaniaethau tebyg mewn perthynas a sut câi rhybuddion eu cyfleu, gydag enghreifftiau o lythyrau'n cael eu hanfon yn syth at y defnyddiwr gwasanaeth trwy
gyfarfodydd tair ffordd, yn gynnwys y rheolwr prawf. Gwnaeth un uwch-reolwr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol y sylw:

***"Mae'n anghyson. Mewn rhai Unedau Cyflawni Lleol, ni chaiff rhybuddion eu rhoi hyd oni byddir wedi cael trafodaeth gyda'r prif swyddog cynorthwyol, mewn rhai fe'i gwneir ar lefel Uwch-Swyddog Prawf. Rhaid ei ddatrys, iddo fod yn glir. Digwyddodd hyn***

---

[18]Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM(2019). *Compliance and engagement on licence*.

*oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau. Mae angen roi ystyriaeth lawn i benderfyniadau ynghylch rhybuddion".*

Yn yr 50 o achosion y bu i ni edrych arnynt, roedd 18 lle'r oedd rhybudd wedi ei roi. Wrth adolygu'r achosion hyn, bu i ni ganolbwyntio ar y penderfyniad i rybuddio'r defnyddiwr gwasanaeth. Bu i ni nodi, fodd bynnag, bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi ei alw'n ôl i'r carchar wedi hynny yn 17 o'r achosion. Sampl bychan oedd hwn ond, er hynny, o'i gyfuno â'r anhawster o gael hyd i achosion, ceir amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd rhybuddion am dorri amodau trwydded. Ac eithrio gwybodaeth a gofnododd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am amrywiad trwyddedau a thystiolaeth anecdotaidd, ychydig iawn o wybodaeth sydd am ddefnyddio rhybuddion a threfniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a'i heffeithiolrwydd. Yn wyneb arwyddocâd y penderfyniad mewn perthynas â gwarchod y cyhoedd, dylid cywiro hyn.

O'r 18 achos lle cyflwynwyd rhybudd, bu i ni gytuno gyda'r dyfarniad i gyflwyno rhybudd i 15. Yn y tri lle roeddem yn anghytuno, roedd dau yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth oedd yn cael eu rheoli ar risg ganolig o niwed ac oedd ddim yn cadw cysylltiad â'u swyddog cyfrifol. Yn ein barn ni, nid oedd pwrpas adeiladol i'r rhybuddion a dylid fod wedi mynd ati i alw'r unigolyn yn ôl i'r carchar. Yn y trydydd achos, roedd dioddefwr posibl a'n barn ni oedd y dylid fod wedi caniatáu galw'r unigolyn yn ôl i'r carchar yn syth. Fel y digwyddodd, cymerwyd camau i alw'r unigolyn yn ôl i'r carchar o fewn 24 awr i gyflwyno'r rhybudd o ganlyniad i'r wybodaeth bellach. Nid oedd achosion yn y sampl a efelychai achos Joseph McCann, lle dylai'r defnyddiwr gwasanaeth fod wedi ei alw'n ôl i'r carchar, ac ni aethpwyd ati i wneud hyn dros gyfnod estynedig.

Pwysleisia canllawiau cydymffurfio ac ymgysylltu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol na ddylai trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar gael eu hystyried oni bai y dyfernir bod modd rheoli'r defnyddiwr gwasanaeth yn ddiogel ac effeithiol yn y gymuned. Amlygir bod angen gwybodaeth a gwaith dadansoddi cynhwysfawr a cheir manylion camau posib i'w cymryd yn unol â'r strategaeth trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae'r rhain yn cynnwys camau pwrpasol mewn perthynas â merched sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth, y pwysleisir bod angen bod yn benodol gyda nhw o ran eu rhywedd a bod â gwybodaeth lawn o sefyllfa'u bwyd. Mae'n anochel y gwneir penderfyniadau ynghylch rybuddion am dorri amodau trwydded ar unigolion cymhleth sy'n byw mewn amgylchiadau sy'n aml yn anhrefnus. Mae angen gwybodaeth, sgil a chrebwyll wrth asesu a oes modd rheoli unigolyn yn ddiogel yn y gymuned. Pwysleisiodd ymarferwyr bwysigrwydd cael cefnogaeth rheolwyr wrth wneud penderfyniadau i rybuddio. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr yn cofnodi eu bod yn cytuno â'r penderfyniad Yn hanner yr achosion a adolygwyd gennym, ni chafodd trafodaethau gyda rheolwyr a phenderfyniadau rheolwyr eu cofnodi. Yn ein barn ni, arfer cofnodi gwael yw hyn ac mae''n annog gwneud penderfyniadau lle byddir yn osgoi cymryd risg. Penderfyniadau ffiniol yn aml yw rhybuddion am dorri amodau trwydded a chawsom hyd i enghreifftiau da ohonynt yn cael eu rhoi'n seiliedig ar benderfyniad gwybodus, proffesiynol.

**Arfer da: rhybudd am dorri amodau trwydded**

Dedfrydwyd Jake i garchar am 30 mis am droseddu drwy beri Niwed Corfforol Difrifol dan adran 20 i ddyn arall. Roedd ei gyn-bartner yn bresennol a bu honiadau blaenorol o gamdriniaeth ddomestig. Pan gafodd ei ryddhau i eiddo cymeradwy, aseswyd ei gyn-bartner fel dioddefwr posibl ac roedd pryderon ynghych cyswllt gyda'i ferch, yr oedd gofalwyr yn gofalu amdani. Cafodd ei asesu'n risg uchel o niwed difrifol ac ystyriwyd bod camddefnyddio alcohol yn ffactor risg uchel.

Wedi iddo gael ei ryddhau, cydymffurfiodd Jake at ei gilydd gyda threfn yr eiddo cymeradwy a chafodd hyd i waith. Wrth brofi'n rheolaidd am alcohol, dangoswyd ei fod yn yfed alcohol ond nid yn ddyddiol ac aseswyd bod modd rheoli ei ymddygiad.

Bedair wythnos ar ôl iddo gael ei ryddhau, method Jake ddychwelyd i'r eiddo cymeradwy am gyrffyw a chysylltwyd â'r rheolwr a weithiai y tu allan i oriau. Nodai'r cynllun wrth gefn, pe byddai'n methu dychwelyd, y dylid disgwyl tan y diwrnod canlynol cyn galw unigolyn yn ôl i'r carchar fel bod modd i'r swyddog cyfrifol wneud y penderfyniad hwnnw, oni bai bod cynnydd clir yn y risg o niwed difrifol.

Dychwelodd Jake i'r eiddo cymeradwy drannoeth. Wrth archwilio ei ystafell, gwelwyd caniau gwag o alcohol. Yn ychwanegol, roedd y swyddog cyfrifol wedi ffonio mam Jake a fynegodd bryder ynghylch ei ymddygiad. Fodd bynnag, dangosodd gwiriadau'r heddlu a diogelu nad oedd pryderon mewn perthynas â'i gyn-bartner na'i ferch.

Yn dilyn trafodaeth rhwng y swyddog cyfrifol a'i reolwr, penderfynwyd bod modd rheoli'r risg yn y gymuned gan fod Jake yn parhau i fod mewn eiddo cymeradwy. Ni fu cysylltiad â'i gyn-bartner, roedd ganddo waith ac roedd wedi ymroi i drefn yr eiddo cymeradwy. Rhoddwyd rhybydd terfynol i Jake gan y Prif Swyddog Cynorthwyol am dorri amodau'r cyrffyw.

Ystyriai staff gweithredol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol bod y broses yn anghyson ac roeddynt yn gymysg eu barn ar effaith y rhybuddion ynghylch torri amodau trwydded ar gydymffurfiaeth ac ymddygiad. Dywedodd rhai staff fod y rhybuddion yn aneffeithiol ac yn gwneud dim ac eithrio oedi'r anochel, sef galw unigolyn yn ôl i'r carchar, tra rhoddodd eraill enghreifftiau o achosion lle roedd amodau trwydded wedi'u hatgyfnerthu ac ymddygiad wedi gwella.Roedd cyfleu rhybuddion yn gysylltiedig â'u heffeithiolrwydd. Cydnabu staff gweithredol, yn unol â'r canllawiau cydymffurfio ac ymgysylltu oedd ar gael, bod angen i lythyrau fod yn bwrpasol a chadw mewn cof amgylchiadau a chymhelliant yr unigolyn. Cydnabyddwyd hefyd, i nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth, bod angen cyfleu rhybuddion ar lafar. Unwaith eto, roedd arferion cyfathrebu'n amrywio ar draws darparwyr prawf ond lle'r oedd rheolwyr yn ymwneud â cyflwyno rhybuddion i ddefnyddwyr gwasanaeth, gwelwyd bod hyn yn fwy effeithiol. Nid oes tystiolaeth bod hyn yn cynyddu effeithiolrwydd y rhybudd, ond, mae'n cyfleu ei ddifrifoldeb ac arfer da yw hyn yn ein barn ni.Mae hefyd yn rhoi hyder i ymarferwyr fod penderfyniadau ynghylch rhybuddion yn rhai a wneir ar y cyd a'u bod yn annog gwneud penderfyniadau proffesiynol yn hytrach na rhai sy'n osgoi cymryd risg.Yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol gogledd-ddwyrain Lloegr, cynhelir cyfarfodydd adolygu trwyddedau dair ffordd i adolygu achosion lle ceir pryderon. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth, y swyddog cyfrifol a'r uwch-swyddog prawf yn y cyfarfod a rhoddir y rhybudd yn y cyfarfod. Gwnaeth swyddog cyfrifol y sylw a ganlyn am y broses:

*"Rydym yn defnyddio cyfarfodydd adolygu trwyddedau lle mae'r uwch-swyddog prawf, y swyddog cyfrifol a'r defnyddiwr gwasanaeth yn cyfarfod os oes pryderon ynghylch gorfodaeth neu alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae ein heddlu lleol yn wych ac weithiau byddant yn y cyfarfod. Ceir bob amser gynllun gweithredu yn y cyfarfodydd hyn law yn llaw â'r rhybudd a roddir. Mae'n hanfodol cael yr uwch-swyddog prawf yn rhan o'r rhybuddion, yn fy marn i"*

Mae defnyddio rhybuddion am dorri amodau trwydded a'r trefniadau amgen i fod yn y ddalfa yn rhan bwysig o arferion prawf ac mae'n union gysylltiedig â'r cyfrifoldeb am warchod y cyhoedd.

Rhaid wrth broses gyson ac, yn ein barn ni, mae cyfarfodydd adolygu trwyddedau'n rhoi fframwaith posibl.Rhaid wrth adnoddau sylweddol i drefnu'r cyfryw gyfarfodydd a chymryd rhan ynddynt fel mater o drefn. Er mwyn cynnal y cyfarfodydd yn effeithiol, byddai'n rhaid ymgorffori'r gwaith hwn i fesur llwyth gwaith y rolau gweithredol.

## 3.2 Trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar

Mae canllawiau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gydymffurfiaeth ac ymgysylltu ar drwydded yn dilyn yr awgrymiadau a'r camau posibl a ganlyn ar gyfer staff gweithredol fel trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Ar y rhestr mae camau posibl i'r swyddogion cyfrifol, sy'n ystyried trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar, eu cymryd. Rhoddodd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wybod i staff gweithredol am ganllawiau tebyg.

- A ydyw cyfeiriad diogelu neu[19]MARAC yn angenrheidiol? (Gall hyn fod yn ddiogelu plentyn neu oedolyn.)
- A ydyw'r troseddwr yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyfeirio at y cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig (yr IOM)?[20]
- A fyddai defnyddio rhybuddion ffurfiol o gymorth i atgyfnerthu ffiniau a disgwyliadau?
- A allech chi gynyddu'r amlder y bydd unigolyn yn presenoli ei hun mewn apwyntiadau goruchwylio neu gydag asiantaethau eraill a nodir yn y cynllun rheoli risg?
- A ydych wedi ymweld â chartref unigolyn pan fethwyd apwyntiad? Gall hyn gynorthwyo i asesu amgylchiadau cyfredol y cartref a gallai fod o gymorth wrth i'r troseddwr ailymroi i oruchwyliaeth. Lle bo'n briodol, dylech ystyried ymweld â chartrefi ar y cyd gydag asiantaethau cymorth. Gallai'r rhain gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau plant.
- A ydych erioed wedi adolygu unrhyw bryderon gydag unrhyw asiantaethau partner sy'n rhan o'r achos? Pa gefnogaeth neu waith monitro ychwanegol allent ei ddarparu?
- A fyddai modd cyflymu cyfeiriadau at raglenni a gynlluniwyd i gynyddu sgiliau, gwybodaeth a galluoedd troseddwyr?
- A oes modd dwyn i mewn rwydweithiau'r teulu neu rwydweithiau cymorth eraill i gefnogi newid a chynyddu cyfalaf cymdeithasol? Dylech ystyried sefyliadau ffydd ac elusennol.
- A ydych wedi ystyried rhoi amodau ychwanegol ar y drwydded?
- A ydych wedi cwblhau asesiad o fregusrwydd troseddwr? A ydynt mewn perygl oddi wrth eraill neu eu hunain, yn hytrach na pheri risg uniongyrchol/mwy o risg i grŵp dioddefwyr y gwyddys amdano?
- A ydych wedi rhoi gwybod i'r troseddwr am y darpariaethau gwasanaeth amgen (er enghraifft, triniaeth, mentora/cefnogaeth gan gymheiriaid ac ati)?
- Mae troseddwyr â nodweddion anhwylder personoliaeth yn debygol o fod ag anghenion cymhleth a gwelwch bod y dasg o'u cael i ymroi i'w goruchwyliaeth yn fwy heriol. Os yw'r troseddwr wedi'i sgrinio i mewn i'r Llwybr Anhwylderau Personoliaeth Troseddwyr ac mae'n preswylio mewn eiddo cymeradwy, a ydych wedi rhannu ffurf yr achos gyda staff yr eiddo cymeradwy a'i drafod gyda'r gweithiwr allweddol?
- Pa strategaethau sydd wedi'u nodi i gynorthwyo troseddwyr ag anawsterau personoliaeth i ymroi a chydymffurfio. A ydych wedi adolygu'r strategaethau hyn, mewn cydweithrediad â'r

---

[19]Cynhelir cynadleddau asesu risg amlasiantaeth gan yr heddlu lle nodir bod unigolyn mewn perygl o gamdriniaeth ddomestig. Y dioddefwr posib yw testun y gynhadledd a'r diben yw rhoi cynllun diogelu effeithiol yn ei le.

[20]Timau o'r heddlu a phrawf yn cydweithio yw cynlluniau Rheoli Troseddwyr Integredig i reoli troseddwyr yn y gymuned.

seicolegydd, yn wyneb amgylchiadau cyfredol? A oes angen i'r troseddwr gael ei drosglwydo i eiddo cymeradwy lle ceir amgylchedd galluogi?

Yn adran 1.4 bu i ni ddadansoddi'r gyfradd genedlaethol amcangyfrifedig ar gyfer galw unigolyn yn ol i garchar rhwng 2016 a 2019 mewn perthynas â mentrau polisi cenedlaethol ac adolygiadau achosion proffil uchel. Roedd uwch-reolwyr, yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn bennaf, yn gyson yn eu barn ar effaith adolygiadau polisi ac achosion difrifol ar alw unigolion yn ôl i'r carchar yn eu sefydliad. Roedd y farn isod yn gyffredin:

***"Newidiai polisïau mewn ymateb i bwysau gan wleidyddion a gweinidogion. Roedd gweinidogion blaenorol yn awyddus i ostwng nifer y carcharorion mewn carchar ac un o'r ffyrdd yw gostwng nifer yr unigolyn a elwir yn ôl i'r carchar. Roedd defnyddio trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ffordd o geisio cwrdd â blaenoriaethau gweinidogaethol heb leihau diogelwch y cyhoedd. Y pwyslais oedd galw unigolyn yn ôl i'r carchar mewn perthynas â risg yn unig, yn hytrach nag â chydymffurfiaeth pan na welwyd bod risg yn cynyddu ..... mae'r achosion proffil uchel yn newid arferion a pholisi, yn lleol ac yn genedlaethol.***

Cynhaliwyd canllawiau'r trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar gan y cyfarwyddyd y dylid bob amser fynd ati i alw unigolyn yn ôl i'r carchar er mwyn gwarchod y cyhoedd. Fodd bynnag, canfyddiad staff gweithredol, yn enwedig yn rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, oedd nad oedd galw unigolyn yn ôl i'r carchar, at ei gilydd, wedi'i annog yn ystod 2017.Cydnabu'r canfyddiad hwn gan uwch-reolwyr yr HMPPS yn dilyn cyhoeddi adolygiad Leroy Campbell. Yn sgil hyn, rhyddhaodd is-adran Arferion Effeithiol y gwasanaeth Prawf Cenedlaethol frîff yn 2018, yn dwyn y teitl *"mythau" galw unigolyn yn ôl i'r carchar* [21] i gael gwared â'r hyn a ganfyddiwyd yn gamdybiaethau a gâi effaith ar arferion gweithredol. Pwysleisiodd hyn brif rôl gwarchod y cyhoedd a chadarnhau nad oedd targedau o ran galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Cydnabu swyddogion cyfrifol y bu newid mewn pwyslais a chanolbwyntio o'r newydd ar warchod y cyhoedd er 2018.Gwnaeth un uwch-swyddog prawf y sylw:

***"Roedd y strategaeth ar gyfer trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar yn gadarnhaol ond roedd rheolwyr yn teimlo pwysau i beidio â'u galw'n ôl i'r carchar.Roedd pwysau yn bendant ac nid oedd hwn yn dod o du gwarchod y cyhoedd ond o gyfarwyddyd syml i beidio â galw unigolion yn ôl i'r carchar. Newidiodd y pwyslais hwnnw ar ôl 2018".***

Ar draws y sefydliadau a arolygwyd, nid oes ar hyn o bryd bwysau gan reolwyr i osgoi galw unigolion yn ôl i'r carchar pan fo'r cynnydd mewn risg o niwed difrifol a aseswyd yn ei gwneud yn angenrheidiol. Cred uwch-reolwyr a staff gweithredol bod bellach weithredu pwyllog wrth benderfynu i alw unigolion yn ôl i'r carchar a chytunwn â'r farn hon. Trwy'r sefydliadau y bu i ni eu harolygu, ystyrir ei fod yn arfer da ystyried trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar ond, bellach, mae gwarchod y cyhoedd wrth galon penderfyniadau i'w galw'n ôl i'r carchar.

Fodd bynnag, roedd gallu cael at drefniadau amgen realistig i alw unigolion yn ôl i'r carchar yn broblem, yn ôl swyddogion cyfrifol. Nid oes modd i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol gael at leoliadau eiddo cymeradwy na'r llwybr anhwylderau personoliaeth troseddwyr. Dywedasant nad oedd y gwasanaethau gofynnol, megis triniaeth iechyd meddwl neu dai, ar gael yn aml, felly nid oedd modd rhoi pecyn cymorth realistig yn ei le. Er bod amodau trwyddedau ychwanegol a gofynion presenoli uwch ar gael, roedd y rhain yn aml yn annigonol i reoli'r risg o niwed a'r diffyg cydymffurfio.

Rhoddodd swyddogion cyfrifol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol enghreifftiau o ddefnyddio gwaith monitro electronig a, lle'r oedd perthynas waith agos gyda'r heddlu, gyrffyw carreg y drws fel

[21]Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM(2018). *Recall "myths"*. Yr adran Ymarfer Effeithiol

trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar. I nifer o achosion, fodd bynnag, roeddent yn gweld preswyliaeth mewn eiddo cymeradwy fel yrunig drefn amgen realistig i alw unigolion yn ôl i'r carchar.  Câi hyn ei seilio ar gymhlethdod eu hachosion a'r angen i fonitro am 24 awr yn aml i reoli cynnydd yn y risg o niwed difrifol.

Wrth i ni adolygu achos McCann yn rhan un, nodwyd bod y galw am welyau mewn eiddo cymeradwy'n llawer uwch na'r hyn oedd ar gael i'w cyflenwi a'i bod yn anodd cael lleoliadau brys fel trefn amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar. Cadarnhawyd hyn gan swyddogion cyfrifol y bu i ni siarad â nhw ar draws ranbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a HMPPS Cymru. Rhydd lleoliadau eiddo cymeradwy brys, yn anochel, bwysau ar drefniadau eiddo cymeradwy a gallant darfu ar grŵp preswyl sydd wedi hen sefydlu yno. Nid yw effaith lleoliadau eiddo cymeradwy brys fel trefn amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar wedi ei ddadansoddi ond datganodd rheolwyr eiddo cymeradwy mai prin iawn oedd llwyddiant derbyn unigolion o'r fath yno ac, fel arfer, nid oedd ond yn oedi'r broses o'u galw'n ôl i'r carchar. Roeddynt yn glir eu barn y dylai eiddo cymeradwy ganolbwyntio ar leoliadau cynlluniedig a chyfyngu nifer yr unigolion a gâi eu derbyn ar frys.

Fodd bynnag, roedd swyddogion cyfrifol o'r farn bod gan eiddo cymeradwy rôl ganolog mewn darparu trefn amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar ac, yn wir, amlygir lleoliadau brys fel opsiynau yn y sesiynau briffio a'r canllawiau. O'r herwydd, mae'r gwahaniaeth mewn persbectif rhwng swyddogion cyfrifol yn y gymuned a staff eiddo cymeradwy'n bryderus. Datganodd un uwch-swyddog prawf:

*"Mae staff bob amser yn ceisio ystyried trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar - eiddo cymeradwy yw'r opsiwn gorau ond yn aml nid yw gwelyau ar gael neu, os ydynt, am gyfnod byr yn unig mae hyn. Mae'n teimlo weithau eu bod yn gweithio i'w hagendâu… y teimlad cynyddol yw nad yw eiddo cymeradwy'n gweithio gyda ni".*

Mae'r penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar neu gyflwyno rhybudd am dorri amodau trwydded yn aml yn un agos a gall y rheolau goruchwylio ac allanol y mae eiddo cymeradwy'n eu darparu, o bosib, chwarae rhan bendant wrth wneud penderfyniad. Mae'n amlwg nad oes gan stad yr eiddo cymeradwy ddigon o gapasiti ac mae hyn yn cyfyngu ar y gwelyau brys sydd ar gael. Fodd bynnag, ein barn ni yw ei bod yn bwysig bod eiddo cymeradwy yn cadw'r capasiti er mwyn darparu gwelyau brys fel trefn amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar.

# 4. Y broses galw unigolion yn ôl i'r carchar: materion allweddol eraill

Yn y bennod hon byddir yn ystyried meysydd allweddol eraill sy'n uniogyrchol gysylltiedig â'r broses o alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y broses y tu allan i orau a'r trefniadau ar gyfer cyrffyw cyfyngu i'r cartref. Byddwn hefyd yn ystyried y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a monitro. Yn olaf, byddir yn adolygu'r broses ar gyfer ailrhyddhau wedi i unigolyn ddychwelyd i garchar.

## 4.1 Galw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau

Roedd gan yr holl ddarparwyr prawf oedd yn ymwneud â'r adolygiad drefniadau yn eu lle i sicrhau bod rheolwr ar gael y tu allan i oriau. Mae'r rhain yn eu lle yn bennaf i ymdrin â materion gorfodi, megis galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Caiff yr holl achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau eu prosesu fel rhai brys. O gofio'i gyfrifoldeb am stad yr eiddo cymeradwy, nid yw'n syndod bod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am y rhan fwyaf o achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau. Yn 2018/2019, roedd 21 y cant o achosion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn rhai y tu allan i oriau. Yn 2019/2020 cynyddodd hyn i 22 y cant. I Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn 2018/2019 a 2019/2020, roedd un o cant o achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar wedi'u trefnu y tu allan i oriau.

Roedd y pedwar achos yn ein sampl achos ni o alw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau yn uniogyrchol gysylltiedig ag aros mewn eiddo cymeradwy. Canfu arolygwyr bod y trothwy ar gyfer galw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys wedi'i fodloni yn y rhan fwyaf o achosion a'r camau priodol wedi eu cymryd.Mae galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn dibynnu ar reolwyr dyletswydd yn gallu cael gwybodaeth allweddol i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau.  Mae hyn yn cynnwys cynlluniau wrth gefn cyfredol, yn enwedig felly mewn perthynas â'r camau gofynnol os bydd unigolyn yn methu dychwelyd ar gyfer cyrffyw.Er i reolwyr eiddo cymeradwy ddatgan nad oedd y cyfryw wybodaeth fanwl ar gael yn gyson, a bod hyn yn llyffetheirio penderfyniadau effeithiol, ni nododd yr achosion a adolygwyd gennym unrhyw bryderon yn hyn o beth ac roedd tystiolaeth o gyfathrebu da rhwng staff eiddo cymeradwy a swyddogion cyfrifol.Mewn rhai achosion, y cynlluniau manwl wrth gefn oedd y rheswm pam na châi achosion brys o alw unigolyn yn ôl i'r carchar eu prosesu.

Mae staff eiddo cymeradwy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyfran uchel o achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae hyn yn cynnwys cyfleu gwybodaeth allweddol am ddefnyddwyr gwybodaeth i swyddogion cyfrifol a rheolwyr dyletswydd. Dylent, felly, fod yn gwbl ymwybodol o feini prawf a throthwyon galw unigolyn yn ôl i'r carchar, yn enwedig felly mewn perthynas ag ymddygiad cyfredol a blaenorol defnyddiwr gwasanaeth. Gwelsom nad fel hyn y mae hi. Ychydig o wybodaeth am yr RPF oedd gan y gweithwyr preswyl a rheolwyr yr eiddo cymeradwy. Eu barn gyffredinol oedd mai cyfrifoldeb swyddogion cyfrifol oedd penderfynu galw unigolyn yn ôl i'r carchar ac, felly, nid oedd hyn yn angenrheidiol. Yn wyneb y rôl ganolog y mae eiddo cymeradwy'n ei chwarae'n aml wrth benderfynu galw unigolyn yn ôl i'r carchar, mae'r canfyddiad hwn yn gyfeiliornus. Yn ein barn ni, mae'n gadael bwlch sylweddol wrth weithredu'r RPF a dylid ei gywiro.

Er gwaethaf hynny, mae eiddo cymeradwy a'r broses o alw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau'n chwarae rhan ganolog mewn gwarchod y cyhoedd, fel a ddangosir yn yr enghraifft isod:

**arfer da: galw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau**

Dyfarnwyd Bob i garchar i warchod y cyhoedd wedi iddo gael ei gollfarnu am ladrata a cheisio treisio dynes anhysbys. Hwn oedd ei gollfarn gyntaf am drosedd rywiol ond roedd ganddo gollfarnau blaenorol am fod yn dreisgar. Cyfnod ei garcharu er mwyn gwarchod y cyhoedd oedd 42 mis.

Wedi iddo gael ei ryddhau fe'i rhoddwyd mewn eiddo cymeradwy.Roedd cyfathrebu rheolaidd rhwng staff yr eiddo cymeradwy a'r swyddog cyfrifol a chyfnewidwyd gwybodaeth mewn perthynas â phrofion cyffuriau, profion alcohol a chydymffurfiaeth Bob gyda'r drefn. Pan ddechreuodd Bob berthynas newydd, cynhaliwyd gwiriadau diogelu priodol a chymerwyd camau i warchod merch ei bartner newydd.

Ar ôl wyth wythnos yn y gymuned, dechreuodd ymddygiad Bob waethygu. Daeth ei berthynas newydd i ben ac roedd pryderon ynghylch ei natur ymosodol a'i ymarweddiad yn yr eiddo cymeradwy. Aeth y rheolwr y tu allan i oriau ati i alw Bob yn ôl i'r carchar ar frys pan fethodd ddychwelyd ar gyfer ei gyrffyw nos. Ymdrechodd staff i gysylltu ag o ond ni ymatebodd. Yn wyneb y risg bosib i'w gyn-bartner a'i phlentyn, cysylltodd staff yr eiddo cymeradwy â thim gofal cymdeithasol plant y tu allan i oriau i sicrhau y câi mesurau penodol eu rhoi yn eu lle. O fewn 12 awr roedd Bob wedi cael ei arestio gan yr heddlu a'i ddychwelyd i'r carchar.

Mae'r broses galw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys yn golygu rbod heolwyr y tu allan i oriau'n cysylltu ag aelodau o'r tîm PPCS i roi gwybod iddynt am y penderfyniad ac i sicrhau y bodlonwyd y trothwy i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys. Roedd rheolwyr o bob graddfa ar draws y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweld gwerth yn y broses hon i roi'r cyngor angenrheidiol i'w cynorthwo i wneud penderfyniadau effeithiol a diffynadwy i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.

## 4.2 Cyrffyw cyfyngu i'r cartref

Gallai unigolion a ddedfrydir i garchar am rhwng 12 wythnos a phedair blynedd fod yn gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref. Mae hyn am o leiaf bythefnos ac am ddim mwy na 135 diwrnod, hyd at y dyddiad rhyddhau amodol, sef hanner ffordd trwy'r ddedfryd.Yn ystod cyfnod y cyrffyw cyfyngu i'r cartref, rhoddir carcharorion a rhyddheir eu rhoi ar gyrffyw a gaiff ei fonitro gan dag eletronig wedi'i osod.Bydd yn rhaid iddynt hefyd gael amodau ar eu trwydded a oruchwylir gan ddarparwyr prawf. Gweithredir achosion o dorri cyrffyw gan y cwmni monitro electronig mewn cysylltiad â'r PPCS. Gweithredir achosion o dorri amodau trwydded gan y darparwyr prawf.Ar ôl i'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref ddod i ben ar y dyddiad rhyddhau amodol, nid yw unigolion ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref mwyach a byddant ar drwydded rhyddhau safonol.Os caiff unigolyn ei alw'n ôl i'r carchar am dorri'r cyrffyw yn ystod cyrffyw cyfyngu i'r cartref, bydd yn cael ei ailryddhau ar ei ddyddiad rhyddhau amodol oni bai fod y darparwr prawf wedi mynd ati i drefnu i'w alw'n ôl am gyfnod penodol neu sefydlog.

Yn Ionawr 2018, cyflwynodd yr HMPPS ganllawiau diwygiedig ar gyfer cyrffyw cyfyngu i'r cartref, Cyfarwyddyd Prawf 01/2018, 'Home Detention Curfew Assessment Process'. Bwriad hwn oedd mireinio'r broses ac arwain at ryddhau mwyafrif y carcharorion oedd yn gymwys dan y meini prawf a gyhoeddwyd. O ganlyniad, bu cynnydd sydyn yn nifer y carcharorion tymor byr a ryddhawyd yn gynnar ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref. Er enghraifft, i'r rhai â dedfryd o 12 mis neu lai, fe ddyblodd bron nifer yr unigolion ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref a ryddhawyd rhwng Ionawr a Mawrth 2017 (656 achos) ac Ionawr a Mawrth 2018 (1,246 achos).[22]Yn 2019/2020, roedd nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar oherwydd iddynt dorri amodau'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref yn 10 y cant

---

[22]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018)*Offender management statistics January – March 2018, Prison Releases: January – March 2018*. Llundain: y Weinyddiaeth Cyfiawnder Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-january-to-march-2018

(2,611) o gyfanswm nifer yr unigolion a alwyd yn ôl. Mae hyn yn gynnydd sylweddol er 2017/2018, pan pedwar y cant (881) oedd y ffigur, ac mae'n dangos effaith defnyddio mwy o'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref ar y rhai a gaiff eu galw'n ôl i'r carchar.

Nifer fechan yn unig o achosion unigolyn a elwir yn ôl i'r carchar ac a adolygwyd gan arolygwyr oedd ar drwydded cyrffyw cyfyngu i'r cartref. Roedd engreifftiau o gyfathrebu effeithiol rhwng y gwasanaethau monitro electronig a darparwyr prawf.

Fodd bynnag, disgrifiwyd cyrffyw cyfyngu i'r cartref gan swyddogion cyfrifol fel proses oedd yn aml dan bwysau, lle na chaiff eu pryderon ynghylch addasrwydd cyfeiriadau rhyddhau eu derbyn yn gyson. Mae'r pwysau i sicrhau y caiff yr holl garcharorion cymwys eu rhyddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref wedi cynyddu eto ers dechrau argyfwng COVID-19 ym Mawrth 2020.Dywedodd un swyddog cyfrifol:

***"Mae cyrffyw cyfyngu i'r cartref wedi dod yn broses sydd wedi ei rhuthro. Ceir hyd i lety a gofynnir i swyddogion prawf ei wirio. Pan mai peidio â chymeradwyo'r llety yw penderfyniad y swyddog prawf, caiff hyn ei herio a byddir yn bwrw ymlaen gyda'r rhyddhau beth bynnag. Mae'r broses gyfan wedi dod yn un lle mae gormod o ruthro".***

Proses yn y carchar yn bennaf yw proses y cyrffyw cyfyngu i'r cartref a llywodraethwr y carchar sy'n gyfrifol am y penderfyniad i ryddhau. Gofynnir i swyddogion cyfrifol yn y gymuned am eu barn ar addasrwydd cyfeiriadau rhyddhau, ond gan y carchar y mae'r penderfyniad terfynol.Dywedodd swyddogion cyfrifol mai, yn aml, ychydig o amser a roddir iddynt asesu cyfeiriadau ac y gall y broses deimlo'n ormesol ac anniogel. Mae'r pryderon hyn i'w gweld yn yr enghraifft a ganlyn:

**Arfer gwael: rhyddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref**

Dedfrydwyd Ian i 18 mis o garchar am ymosod ar ei gyn-bartner a thorri amodau gorchymyn atal. Cymeradwywyd cyfeiriad ffrind ar gyfer ei ryddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref wedi i'r swyddog cyfrifol gynnal y gwiriadau sylfaenol. O fewn 48 awr o gael ei ryddhau o'r carchar, cysylltodd Ian â'i swyddog cyfrifol i ddweud ei fod wedi'i droi allan o'i gyfeiriad.

Wedi hynny, fe ffoniodd y swyddog prawf i gynnig cyfeiriad arall ond ni chafwyd ymateb gan ei swyddog cyfrifol. Rhoddodd y gwasanaeth monitro electronig wybodaeth am dorri'r amodau i'r PPCS, a brosesodd yr achos o dorri amodau'r cyrffyw 12 diwrnod wedi iddo gael ei ryddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref. Ni ystyriodd y swyddog cyfrifol a oedd angen diweddaru'r achos hwn o alw unigolyn yn ôl i'r carchar i un am gyfnod penodol neu sefydlog ac ni chysylltodd â'r heddlu na gwirio a oedd cyn-bartner Ian yn ddiogel.

Ni weithredwyd y gorchymyn diddymu am dorri amodau'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref tan ymddangosodd Ian yn y llys am ragor o ymosodiadau yn erbyn ei gyn-bartner. Roedd hyn dri mis wedi i'r PPCS ei gymeradwyo. Yn yr achos hwn, nid oedd y cyfeiriad rhyddhau wedi'i asesu'n llwyr o ran y risg ac roedd yr oedi wrth alw'r unigolyn yn ôl i'r carchar, yn rhannol, oherwydd na wnaeth y swyddog cyfrifol oruchwylio'r drwydded yn ddiogonol.

Yn yr achos hwn, roedd yn amlwg nad oedd y cyfeiriad yn addas ar gyfer rhyddhau unigolyn ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref. Wedi hynny, roedd y swyddog cyfrifol wedi arddangos arfer gwael wrth beidio ag adolygu'r achos o alw unigolyn yn ôl i'r carchar, peidio â chysylltu â'r gwasanaeth monitro electronig nac ymateb i alwadau ffôn y troseddwr.Er nad oeddynt yn mynd law yn llaw â'r un arfer prawf gwael, roedd enghreifftiau eraill yn ein hadolygiad o gymeradwyo cyrffyw cyfyngu i'r cartref ar gyfer cyfeiriadau anaddas.Mae hyn yn peri pryder.Gall rhyddhau unigolyn ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref fod yn broses adeiladol ond rhaid iddi gael ei chynnal gan asesiad risg cytbwys i warchod y cyhoedd a gostwng y tebygolrwydd o alw'r unigolyn yn ôl i'r carchar.

## 4.3 Sicrwydd ansawdd ac anghymesuredd

Cyflwynir i'r PPCS yr adroddiad Rhan A ar alw'r holl unigolion yn ôl i'r carchar a alwyd yn ôl gan y darparwyr prawf. Yn achos galw unigolion yn ôl ar frys neu y tu allan i oriau, gellir cyflwyno'r

adroddiad ar ôl prosesu'r achos.Rhaid i reolwyr gymeradwyo hyn ac i fwyafrif y darparwyr, ar lefel prif swyddog cynorthwyol mae hyn. Yr hyn a gymeradwyir yw cynnwys ac ansawdd yr adroddiad.

Fel y gwelsom yn rhan un o'r adolygiad, hon yw'r brif ffordd y caiff ansawdd penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ei sicrhau gan ddarparwyr prawf. Unwaith y bydd y PPCS yn derbyn y ffurflen, bydd yn ei hadolygu i sicrhau bod y wybodaeth ynddi'n cwrdd â'r trothwy angenrheidiol i awdurdodi galw unigolyn yn ôl i'r carchar, ond nid yw hyn yn rhan o broses sicrhau ansawdd.Mae'n briodol cael cymeradwyaeth uwch-reolwyr o gofio difrifoldeb y penderfyniad gweithredol. Fodd bynnag, yn aml caiff penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar eu prosesu'n gyflym a rhaid cyflwyno'r adroddiad o fewn 24 awr i wneud penderfyniad.

Mae darparwyr prawf yn archwilio eu gwaith eu hunain o alw unigolion yn ôl i'r carchar a samplo achosion ar hap, ond nid yw hyn yn gyson ar draws y sefydliadau. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi cyflwyno'r teclyn Sicrhau Ansawdd Rhan A Adroddiad Trefniadau Amgen i Alw unigolyn yn ôl i'r carchar a'i Alw'n ôl i Garchar . Dim ond mewn dau ranbarth a adolygwyd gennym yr oedd hyn wedi ei ddefnyddio. Yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol gogledd-ddwyrain Lloegr, roedd wedi ei ddefnyddio i sicrhau ansawdd penderfyniadau i alw merched yn ôl i'r carchar. Yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol y de-orllewin, Canol de Lloegr, roedd wedi ei ddefnyddio i gymryd sampl o 10 y cant o achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac a broseswyd mewn cyfnod o ddau fis. Roedd tystiolaeth mewn dau ranbarth y câi canfyddiadau'r archwiliad eu cyfleu i staff gweithredol i wella arfer. Yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a adolygwyd, roedd gorfodi'n rhan o'u fframwaith sicrhau ansawdd a'u cynlluniau blynyddol. Roedd hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r drwydded ond nid oedd yn cynnwys ystyriaeth benodol o benderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar.

Mae gwaith sicrhau ansawdd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn canolbwyntio ar benderfyniadau i alw unigolion yn ôl i'r carchar sydd eisoes wedi eu gwneud ac a oedd modd cyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw. Nid yw'r teclyn yn ymgorffori rhybuddion am dorri amod trwydded ac ystyria a ddylid fod wedi galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn hytrach na cyflwyno rhybudd iddo. Gellid ystyried hyn wrth sicrhau ansawdd achosion yn gyffredinol ym mhob sefydliad prawf ond, o gofio canfyddiadau ein hadolygiad o achos McCann yn rhan un, mae hwn yn faes y credwn y mae gofyn canolbwyntio'n benodol arno. Dylid bod fframwaith sicrhau ansawdd cyffredinol ar gyfer penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a chyflwyno rhybudd am dorri amod trwydded. Dylai hwn fod ar wahân i'r broses benderfynu.

Yn 2019/2020, roedd 17 y cant (4,665) o unigolyn a alwyd yn ôl i'r carchar yn unigolion o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Roedd yn anochel yr amrywia cyfrannau ar draws sefydliadau, gan ddibynnu ar y bobl leol. Yng Nghwmni Adsefydlu Cymunedol Llundain, roedd 42 y cant (843) o unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, o gymharu â 7 y cant (26) yng Nghwmni Adsefydlu Cymunedol Swydd Warwick Gorllewin Mercia. Ni wyddys faint o fias sydd wrth benderfynu galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Yn genedlaethol, ni ddadansoddir, fel mater o drefn, anghymesuredd mewn perthynas â galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Yn aml, caiff asesiadau risg eu llywio gan ddyfarniadau ar ymddygiad, cyflwyniad, agwedd ac ymddygiad tebygol yn y dyfodol. I gydnabod y bias posib yn y broses hon, cyflwynodd tîm ymarfer Prawf Effeithiol yr HMPPS sesiwn briffio saith munud ym Mehefin 2020, gan roi canllawiau ar benderfyniadau i alw oedolion ifainc 18 i 25 oed du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig yn ôl i'r carchar. Yn y canllawiau ymarfer mae cyngor ar wrthdroi bias wrth wneud penderfyniadau ac asesu aeddfedrwydd. Yn arwyddocaol, mae'n pwysleisio y dylid bod yn strwythuredig ac ystyrlon wrth benderfynu galw unigolyn yn ôl i'r carchar.Gweithredir y canllawiau gan ddarparwyr prawf yn lleol ac ychydig wybodaeth sydd am p'run a yw wedi ei ymgorffori i mewn i arfer swyddogion cyfrifol ac yn effeithiol wrth roi sylw i fias posibl wrth wneud penderfyniadau.

Yn dilyn y gwahaniaethu a amlygwyd gan Adolygiad Lammy,[23] dadansoddodd Gwasanaeth Prawf Llundain ei achosion o alw troseddwyr du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig dan 25 oed yn ôl i'r carchar a gynhaliwyd yn 2019. [24]Roedd hyn yn cynnwys adolygiad manwl o rai achosion. Mae hyn yn arfer da ond, yn yr un modd, ni chaiff achosions i alw unigolion yn ôl i'r carchar eu dadansoddi na'u samplo ar hap fel mater o drefn yn genedlaethol gan na'r PPCS na chan ddarparwyr prawf eraill. Nododd Adolygiad Lammy batrymau o wahaniaethu systemig yn y system cyfiawnder troseddol. Felly, dylai cyfraddau galw unigolion yn ôl 'i'r carchar gael eu dadansoddi fel mater o drefn am arwyddion o anghymesuredd ac achosion galw unigolion yn ôl i'r carchar eu samplo ar hap am dystiolaeth o fias diarwybod.

## 4.4 Galw unigolyn yn ôl i'r carchar a rhyddhau gweithredol

Ar ôl mynd ati i alw unigolyn yn ôl i'r carchar am gyfnod penodol, mae'r PPCS yn cyflwyno hysbysiad diddymu achos o alw unigolyn yn ôl i'r carchar i'r heddlu, sy'n awdurdodi galw'r unigolyn yn ôl i'r carchar. Ar gyfer unigolion a elwir yn ôl i'r carchar am gyfnod amhenodol, lle nad oes dyddiad rhyddhau penodol, unwaith y bydd yr unigolyn yn ôl yn y carchar, mae gan y swyddog cyfrifol 10 diwrnod gwaith i gyflwyno adroddiad Rhan B i'r PPCS. Unwaith y bydd wedi derbyn yr adroddiad, mae'r PPCS yn gyfrifol am asesu a yw'r carcharor yn addas i gael ei ailrhyddau'n weithredol. Gosodir cyfnod o 10 diwrnod oherwydd, os na chaiff y carcharor ei asesu fel un sy'n addas ar gyfer ei ailryddhau'n weithredol, rhaid i'r PPCS gyflwyno'r ffeil ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar i'r Bwrdd Parôl o fewn 28 diwrnod i'r unigolyn ddychwelyd i'r carchar.  Rhaid i'r carcharor gael amser i wneud sylwadau i'r Bwrdd Parôl ar gynnwys yr adroddiadau.

Mae Adroddiad Rhan B ar asesiadau risg yn gofyn am gynllun rheoli risg cyfredol; gwybodaeth am agwedd y carcharor at gael ei alw'n ôl i'r carchar a'i ymddygiad yno; a barn y swyddog cyfrifol ar ailryddhau. Mae gwaith cwblhau'r adroddiad yn dibynnu ar y swyddog cyfrifol yn medru cael cyswllt â'r carcharor i gwblhau'r asesiad. Nid yw'r broses yn gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd. Nid yw'r mynediad sydd gan swyddogion cyfrifol at garcharorion o fewn y 10 diwrnod yn gyson ac, o'r herwydd, maent yn argymell rhyddhau nifer leiaf yr unigolion yn unig, er nad yw'r union ffigurau ar gyfer nifer yr adroddiadau Rhan B sy'n argymell ailryddhau ar gael. Yn aml, cyflwynir adroddiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth anghyflawn ac, yn y bôn, maent yn ailddweud yr asesiad yn adroddiad Rhan A ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar.Roedd sylwadau swyddogion cyfrifol yn cynnwys:

***"Mae'r cyfnod yn rhy fyr. Mae'n anodd iawn cael cyswllt uniongyrchol ac mae'r cwestiynau'n ymwneud ag agwedd y defnyddiwr gwasanaeth ar gael ei alw'n ôl i'r carchar. Weithiau mae'n cymryd wythnos i neilltuo carcharor mewn uned rheoli troseddwyr felly, mae hi hyd yn oed yn anodd cael y wybodaeth o'r carchar. Mae hi'n dal i deimlo fel pe na bai prawf a'r carchar yn rhan o'r un gwasanaeth".***

***Nid yw'n amserlen sydd o unrhyw gymorth - mae unigolion yn aml yn dal i fod yn eithaf blin. Gellir hefyd bod oedi cyn y cawn wybod bod carcharor yn dychwelyd i'r ddalfa. Nid yw'n bosib ei wneud yn gywir ac ni chawn y cyfle'n aml i siarad â'r defnyddiwr gwasanaeth. Ceisiwn anfon e-bost at garcharorion ond nid ydym bob amser yn cael ymateb".***

Mae effaith cael eu galw'n ôl i garchar ar unigolion ar drwydded yn sylweddol. Mae'n iawn a chyfiawn y gallant herio'r penderfyniad. Mae gwneud i broses 10 diwrnod Rhan B weithio, fodd bynnag, wedi dod yn gyfrifoldeb yr ymarferwyr prawf yn y gymuned yn bennaf ac nid oes ganddynt

---

[23]Llywodraeth EM (2017). *The Lammy Review: An independent review into the treatment of and outcomes for Black, Asian and Minority Ethnic individuals in the Criminal Justice System*.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/643001/lammy-review-final-report.pdf

[24]Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol(2020). *Disproportionality in the recall of young adult BAME*.

yr awdurdod i wneud iddo weithio'n effeithiol. Dylid adolygu'r amserlen 10 diwrnod a'r cyfrifoldebau yn y broses fel ei fod yn gweithio mewn modd ystyrlon. Dylai hyn gynnwys ystyried rôl a chyfrifoldebau unedau rheoli troseddwyr carchardai.

Pe digwyddai'r Bwrdd Parôl beidio â chaniatáu i unigolyn gael ei ryddhau yn dilyn ei alw'n ôl i'r carchar am gyfnod penodol, cyflwyna swyddogion cyfrifol adroddiadau asesu risg Rhan C ar bob person yn eu llwyth achos sydd wedi ei alw'n ôl i'r carchar ond nid wedi ei ailryddhau.Gellir cyflwyno adroddiad Rhan C i'r PPCS iddo ystyried rhyddhau unigolion yn weithredol ar unrhyw adeg. Mae'r PPCS yn adolygu'r holl gynlluniau rheoi risg a dderbynnir i nodi achosion sy'n briodol i'w rhyddhau'n weithredol. Mae'n anochel y gwneir penderfyniadau wedi eu seilio ar amgylchiadau unigol ond mae anghysondeb rhwng sefydliadau yn nifer achosion unigolion a ryddheir yn weithredol. Er enghraifft, yn 2019/2020, cafodd 871 o garcharorion eu rhyddhau'n weithredol. O'r rhain roedd 175 yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol gogledd-ddwyrain Lloegr ac 82 yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol de-orllewin Lloegr, canol de Lloegr.Mae rhyddhau'n weithredol yn broses cadarnhaol ond dylid adolygu pa mor gyson y caiff ei ddefnyddio a chysonden y cyfnodau amser.

## Casgliadau a Goblygiadau.

Mae gan ddarparwyr prawf gyfrifoldeb i sicrhau bod penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ystyriol, teg ac yn rhoi blaenoriaeth i warchod y cyhoedd.Cododd ein hadolygiad o achos Joseph McCann gwestiynau difrifol am broses gwneud penderfyniadau'r gwasanaeth prawf yng nghyswllt galw unigolyn yn ôl i'r carchar rhwng 2017 ac yn gynnar yn 2019. Nid yw'r pryderon hyn wedi eu hailadrodd yn ein hadolygiad thematig o'r diwylliant a'r arferion cyfredol ynghylch galw unigolion yn ôl i'r carchar yn y cyfnod ers hynny.Mae staff gweithredol ac uwch-reolwyr yn canolbwyntio ar warchod y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau. Yn yr achosion a adolygir, roedd unigolion yn cael eu galw'n ôl i garchar yn briodol.

Fodd bynnag, mae gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn broses gymhleth. Rhaid casglu ac adolygu gwybodaeth fanwl cyn y gellir gwneud penderfyniad. Yn aml, gofynna amgylchiadau lle gelwir unigolyn yn ôl i'r carchar i'r penderfyniad gael ei wneud mewn amgylchedd dan bwysau gydag amserlenni tynn. Mae risg sy'n gwaethygu a'r angen i warchod dioddefwyr yn bwysau uniongyrchol yn aml. Fodd bynnag, mae pwysau allanol hefyd yn sylweddol. Mae'r pwysau sydd wedi ei roi ar swyddogion cyfrifol o du'r heddlu i weithredu achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar wedi bod yn thema sy'n codi ei phen dro ar ôl tro yn ein hadolygiad. Mae safbwynt yr heddlu'n bwysig ond rhaid seilio penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ar asesiad gofalus o'r holl wybodaeth sydd ar gael ac nid wedi eu gyrru gan farn rannol wybodus. O'r herwydd, mae fframwaith penderfynu cyson yn angenrheidiol. Mae'r gymeradwyaeth rheoli dwy haen yn adroddiad Rhan A ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn darparu'r fframwaith angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod systemau swyddfa'n caniatáu i ymarferwyr neilltuo'r amser angenrheidiol i wneud penderfyniadau effeithiol i alw unigolyn yn ôl i'r carchar. Ni ddylai galw unigolyn yn ôl i'r carchar fod yn annisgwyl o gofio natur llwyth achos y gwasanaeth prawf a dylai hyn gael ei adlewyrchu wrth drefnu llwythi gwaith a thimau.

Caiff pwysigrwydd fframwaith cyson i ganiatáu penderfyniadau proffesiynol ei atgyfnerthu drwy'r dystiolaeth bod polisïau cenedlaethol ac adolygiadau proffil uchel yn dylanwadu ar gyfraddau galw unigolion yn ôl i'r carchar. Mae'r amrywiadau mewn cyfraddau galw unigolion yn ôl i'r carchar er 2016 yn dangos hyn. Ar draws sefydliadau, mae bellach mwy o eglurder ynghylch canolbwyntio ar warchod y cyhoedd a rôl trefniadau amgen i alw unigolion yn ôl i'r carchar.Caiff cyfrifoldeb gwneud penderfyniad i alw unigolyn yn ôl i'r carchar ei rannu rhwng ymarferwyr a rheolwyr. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn niwylliant y sefydliad. Nid fel hyn y mae hi ar hyn o bryd. Mae ymarferwyr yn pryderu y cânt eu dal yn bersonol gyfrifol am droseddau pellach difrifol unigolion dan eu goruchwyliaeth. Mae datblygu a chynnal fframwaith penderfynu cadarn nad yw'n agored i adweithiau difeddwl yn ganolog i ddatblygu diwylliant proffesiynol yn hytrach nag i un sy'n seiliedig ar ofn.Er mwyn atal ymhellach benderfyniadau sy'n ymwrthod â risg, rhaid i ymarferwyr gael cefnogaeth rheolwyr pan fyddant yn penderfynu'n briodol beidio â galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn ogystal â phan gytunir i'w alw'n ôl. Dylai'r gefnogaeth hon fod yn amlwg yn y cofnod o'r penderfyniad.

Defnyddir rhybuddion am dorri amodau trwydded eu defnyddio'n anghyson ar draws darparwyr prawf. Nid oes fframwaith cyson ar gyfer gwneud penderfyniadau, cyflawni na chofnodi nac ar gyfer gwerthuso effaith rhybuddion. O'r herwydd, anodd yw nodi achosion sydd wedi cael rhybudd a heb gael eu galw'n ôl i'r carchar. Gellir rhagdybio mai hanes mwyafrif yr unigolion sy'n derbyn rhybudd am dorri amodau eu trwydded yw cael eu galw'n ôl i'r carchar, ond nid yw data ar effaith rhubuddion am dorri amodau trwydded wedi eu casglu a'u dadansoddi. Yn yr un modd, er gwaethaf gweithredu'r strategaeth trefniadau amgen i alw unigolyn yn ôl i'r carchar er 2017, ni fu dadansoddi ei heffeithiolrwydd a ph'run yw'n atal ynteu dim ond yn oedi galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae'r teclyn Sicrhau Ansawdd Rhan A yr Adroddiad Trefniadau Amgen i Alw unigolyn yn ôl i'r carchar a'i Alw'n ôl i Garchar yn canolbwyntio ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar ac nid yw'n ymgorffori achosion o rybuddio am dorri amodau trwydded. Golyga hyn nad yw'r gwaith sicrhau ansawdd a'r archwiliadau a gynhelir yn cynnwys achosion na chafodd eu galw'n ôl i garchar.Caiff y gwaith hwn o ganolbwyntio ar achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar ei efelychu wrth ddefnyddio gwybodaeth rheoli. Caiff cyfraddau galw unigolyn yn ôl i'r carchar ar draws sefydliadau a rhyngddynt eu monitro, ond yn y sefydliadau a arolygwyd, mewn un yn unig y cafwyd tystiolaeth y defnyddiwyd gwybodaeth rheoli i gwestiynu'r arfer y tu ol i alw nifer isel o unigolion yn ôl i'r carchar.

Yn rhan un o adolygiad McCann, bu i ni argymell gweithredu proses sicrhau ansawdd, yn annibynnol ar y broses o wneud penderfynu. Dylai hyn ymgorffori adolygiad o fias a bias diarwybod posibl wrth wneud penderfyniadau. Dylai'r broses sicrhau ansawdd hefyd ganiatáu ar gyfer samplo achosion ar hap yn rheolaidd i ddadansoddi anghymesuredd posibl mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal â chynnwys penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar, dylai hwn hefyd gynnwys mynediad at drefniadau amgen i'r ddalfa a'r defnydd a wneir ohonynt, megis amodau ychwanegol i drwydded, cyfeiriad at wasnaethau monitro electronig a mynediad at eiddo cymeradwy.

Mae tîm adran Gwaith Achos Gwarchod y Cyhoedd (PPCS) yr HMPPS yn ganolog i broses galw unigolyn yn ôl i'r carchar. Mae gan staff y PPCS berthynas effeithiol gyda darparwyr prawf a rhoddant ganllawiau clir mewn perthynas â throthwyon a galw unigolyn yn ôl i'r carchar ar frys. Deellir y cyswllt rhwng awdurdod y PPCS a chyfrifoldeb darprwyr prawf i wneud penderfyniadau ac mae'n cynnal y broses o alw unigolyn yn ôl i'r carchar.Fodd bynnag, dylid adolygu effeithiolrwydd adroddiad rheoli risg Rhan B ar addasrwydd i ailryddhau yn sgil galw'n ôl i'r carchar. Ar hyn o bryd, ymarferwyr prawf yn y gymuned sy'n gyfrifol
am ei effeithiolrwydd, gyda dim cyfrifoldebau diffiniedig wedi eu neilltuo i unedau rheoli troseddwyr carchardai. O'r herwydd, felly, mae cynlluniau asesu risg a rhyddhau yn ddamcaniaethol yn aml, ac nid yw nifer argymhellion Rhan B i ailryddhau wedi'i chofnodi. Rhaid cyflwyno asesiad Rhan B ar amser i garcharorion allu herio'i chynnwys yn yr adolygiad Parôl, ond ni all proses effeithiol sy'n ganolog i asesu carcharorion i'w ailrhyddhau fod yn gyfrifoldeb i'r ymarferwyr prawf cymunedol yn unig.

Deellir ar draws sefydliadau bod penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar yn canolbwyntio ar warchod y cyhoedd ond ni ddeellir gwahanol feini prawf galw unigolion yn ôl. Mae gwaith gweithredu'r Fframwaith Polisi Galw'n Ôl, Adolygu ac Ailryddhau Carcharorion a Alwyd yn Ôl(yr RPF) wedi bod yn anghyson.Roedd staff gweithredol yn rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ymwybodol o'r fframwaith, ond roedd anghysondeb yn eu gwybodaeth o'r gwahanol drothwyon ar gyfer dedfrydau penagored a phenodol. Ychydig iawn oedd staff a rheolwyr yn gweithio mewn eiddo cymeradwy yn ei wybod am y fframwaith. Yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, eto, ychydig oedd yr ymarferwyr yn ei wybod am y fframwaith. Mae gwreiddiau'r anghysondeb hwn yn y defnydd a wneir o'r fframwaith hwn. Yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sicrhawyd bod sesiynau briffio ar gael ond rhanbarthau unigol benderfynai sut i gyfleu'r negeseuon allweddol. Oherwydd pwysigrwydd RPF roedd angen ei weithredu'n unedig a strwythuredig fel ei fod yn cael blaenoriaeth dros fentrau polisi ac arferion eraill.

Mae gwahaniaethau rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o ran arferion a diwylliant. Ymhlith y gwahaniaethau hyn mae cymeradwyaeth rheolwyr, disgwyliadau ymarferwyr ac ymwybyddiaeth o'r RPF. Bydd angen rhoi sylw i hyn pan gaiff rhanbarthau

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Lloegr eu huno â'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn is-adrannau rhanbarthol ym Mehefin 2021.Gellir dysgu gwersi oddi wrth HMPPS Cymru. Ar ôl uno swyddogaethau rheoli troseddwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn Rhagfyr, sicrhawyd bod holl staff y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol  wedi eu hyfforddi mewn asesu risg, rheoli risg ac arferion diogelu o fewn tri mis er mwyn sicrhau arferion cyson.

# Cyfeirnodau


Fitzalan Howard, F., Travers, R., Wakeling, H., Webster C. and Mann, R. (2018). *Understanding the process and experience of recall to prison*. Llundain: Crynodeb Dadansoddol yr HMPPS

Llywodraeth EM. (2017). *The Lammy Review: An independent review into the treatment of and outcomes for Black, Asian and Minority Ethnic individuals in the Criminal Justice System.* Llundain: Llywodraeth EM.

Arolygiaeth Prawf EM.(2018). *Enforcement and Recall.* Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM.

Arolygiaeth Prawf EM. (Mehefin 2020) *Independent review of the case of Joseph McCann: final report*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM.

Arolygiaeth Prawf EM. (2018). *Independent review of the case of Leroy Campbell: final report*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM.

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2018). Better outcomes for recalled prisoners.

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2019). *Compliance and Engagement on Licence.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM.(2017). *Effective Licence Management Plan.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2018). *Y Broses Ases Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartef.Cyfarwyddyd Prawf 01/2018.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2017). *Cynllun Gweithredu carchariad er Gwarchod y Cyhoedd.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2019).*Managing Indeterminate Sentence Prisoners.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2018). *Recall "Myths"*. Yr Is-adran Arferion Effeithiol.

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM(Ebrill 2019, ailgyhoeddwyd Chwefror 2020). *Recall, Review and Re-release of Recalled Prisoners Policy Framework.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM(2019). *Reducing recall rates for BAME Young Adults (aged 18-25). Is-adran Arferion Effeithiol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM(2019). *Reducing recall rates for BAME Young Adults (aged 18-25). Is-adran Arferion Effeithiol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.*

Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2019). *The Alternatives to Recall and Recall Report Part A Quality Assurance tool. Fersiwn 2*. NPS Quality and Effectiveness.

Grŵp Sicrhau Systemau a Gweithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM. (Mai 2019). *CRC Management of Offenders Recalled to Custody: Final Thematic Report.* Llundain: HMPPS.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. (Mawrth 2020). *Serious further offence review in the case of Joseph McCann.*

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. (2020). *Offender management statistics quarterly: January to March 2020.*

Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (2014). *Recall, Review and Re-release of Recall Offenders Probation Instruction PI 27/2014.*

y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2017). *Alternatives to recall guidance.* Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2017). Pecyn briffio tîm ar Drefniadau Amgen i alw unigolyn yn ôl i garchar.

y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (2020). *Disproportionality in the recall of young adult BAME*.

# Annexe 1: Cylch Gorchwyl

## Adolygiad annibynnol, rhan 2

### Adolygiad thematig cenedlaethol Arolygiaeth Prawf EM o ddiwylliant ac arferion yn y gwasanaeth prawf o alw unigolyn yn ôl i'r carchar

Mae amgylchiadau achos Joseph McCann wedi bwrw amheuaeth dros y diwylliant a'r arferion ehangach yn y maes prawf ynghylch galw troseddwyr dan oruchwyliaeth yn ôl i'r carchar. Mae'r adolygiad o droseddau pellach difrifol wedi awgrymu y bu cyfleoedd i alw Joseph McCann yn ôl i'r carchar na chawsant eu cymryd gan y swyddogion goruchwylio. Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn archwilio a yw hyn wedi dod yn arfer cyffredin a phaham.

Bydd yr adolygiad thematig hwn yn cynnig persbectif cenedlaethol ar y diwylliant a'r arferion o amgylch gwneud penderfyniad i alw unigolion yn ôl i'r carchar, yn benodol felly a yw staff yn gyfarwydd â'r canllawiau ar alw unigolion yn ôl i'r carchar ac yn eu dilyn.

Bydd yr adolygiad thematig yn canolbwyntio ar elfennau penodol o'r llwyth achos prawf:

- Achosion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o alw unigolion yn ôl i'r carchar ar drwydded
- achosion dedfrydau penodol
- achosion dedfrydau penagored (carcharorion a gaiff garchariad i warchod y cyhoedd a dedfryd oes)
- Proses galw unigolyn yn ôl i'r carchar: Rhan A, Rhan B a Rhan C
- achosion a ddedfrydwyd yn oedolion (18 mlwydd oed a throsodd).

<u>Ffrydiau Gwaith</u>

Bydd tair ffrwd gwaith:

Data ymchwilio Adolygiad y Weinyddiaeth Cyfiawnder / HMPPS ar alw unigolyn yn ôl i'r carchar, yn cynnwys:

- y graddau i'r hyn y mae cyfraddau galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn amrywio'n ôl Uned Cyflawni Leol a swyddfeydd lleol, gan gadw mewn cof wahaniaethau yn nifer y troseddwyr (os yw'n bosibl)
- Effaith Cyrffyws Cyfyngu i'r Catref ar y cynnydd yn nifer yr unigolion a elwir yn ôl i'r carchar
- Y gyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar fesul swyddfa / Uned Gyflawni Leol yn ôl math y drosedd
- cyfres amser o newidiadau i gyfraddau galw unigolyn yn ôl i'r carchar yn erbyn cyflwyno polisïau newydd
- Cyfraddau aildroseddau carchariad er gwarchod y cyhoedd (ers canolbwyntio ar ailryddhau)
- galw unigolyn yn ôl i'r carchar y tu allan i oriau
- galw unigolyn yn ôl i'r carchar o eiddo cymeradwy.

2. Gwaith maes arolygu

Byddwn yn cynnal cyfweliadau wedi eu targedu gyda rheolwyr a staff yn genedlaethol er mwyn deall materion polisi ac arferion.

Byddwn hefyd yn cynnal cyfarfodydd gyda grwpiau o staff a rheolwyr yn rhanbarthau perthnasol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yr Unedau Cyflawni Lleol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, i gael tystiolaeth ar ddiwylliant ac arferion yn lleol.

3. Adolygiadau achos

Byddwn yn edrych yn fanwl ar sampl bychan o achosion i egluro sut y gwneir penderfyniadau i alw unigolyn yn ôl i'r carchar a darparu astudiaethau ar gyfer yr adroddiad a gyhoeddir. Caiff y sampl ei ddethol o restr hir o achosion trwyddedau lle cafodd rhybuddion eu cyflwyno gan uwch-reolwr.Mae rhai o'r rhain wedi'u galw'n ôl i'r carchar ac eraill nad ydynt. Bydd rhai achosion o garcharu i warchod y cyhoedd ymhlith achosion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

# Atodiad 2: Methodoleg

## Cyn-waith maes

Ar gyfer rhan dau o'r adolygiad, bu i ni ddarllen y dogfennau a ganlyn:

Polisi a chanllawiau

- Polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r HMPPS mewn perthynas â galw unigolyn yn ôl i'r carchar, gorfodi a rhybuddion am dorri amodau trwydded
- Dogfennau polisi'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol mewn perthynas â'r weithdrefn galw unigolyn yn ôl i'r carchar, y perfformiad a'r arferion
- Dogfennau polisi'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol mewn perthynas â charcharorion â dedfrydau penagored
- Gwybodaeth perfformiad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol mewn perthynas â charcharorion â dedfrydau penagored a galw unigolyn yn ôl i'r carchar
- Canllawiau MAPPA
- adolygu adroddiadau arolygu perthnasol
- adolygiad o wybodaeth a gyflwynwyd ymlaen llaw gan dîm PPCS Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Ei Mawrhydi
- adolygiad o wybodaeth gan ddarparwyr prawf yn manylu ar brosesau galw unigolion yn ôl i'r carchar, data yn eu cylch a threfniadau sicrhau ansawdd galw unigolyn yn ôl i'r carchar
- adolygiad o gofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth ddogfenedig a thystiolaeth o arferion a gyflwynwyd gan ddarparwyr prawf.

### Cyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar

Nid oes cyfradd swyddogol ar gael yn yr ystadegau galw unigolyn yn ôl i'r carchar. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi diffinio'r gyfradd galw unigolyn yn ôl i'r carchar fel nifer yr unigolion a elwir yn ôl i'r carchar ar drwydded mewn cyfnod o alw'n ôl wedi'i rannu gan lwyth achosion gwaith goruchwylio ôl-ryddhau ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn amcangyfrif bras a allai fod yn adlewyrchiad anghywir oherwydd cymhlethdod y data. Yr hyn yw cyfanswm nifer yr unigolion a alwyd yn ôl i'r carchar ar drwydded yw nifer a alwyd yn ôl ar drwydded dros y cyfnod, lle mai ffigur sefydlog yw data'r llwyth achos ôl-ryddhau. Ymhlith problemau posibl gyda'r ffigurau hyn mae'r isod,a gellid bod mwy:

- Efallai bod unigolion wedi'u galw'n ôl i'r carchar sawl gwaith o fewn yr un cyfnod galw'n ôl
- Gallai ungolion a elwir yn ôl i'r carchar barhau i fod yn y ddalfa ar ddiwedd y cyfnod
- nid yw ffigur y llwyth achosion yn adlewyrchu nifer gyffredinol yr unigolion sy'n dechrau a/neu'n gorffen eu goruchwyliaeth ar drwydded.

## Gwaith maes arolygu

Cynhaliwyd y gwaith maes dros dair wythnos rhwng 20 Gorffennaf 2020 ac 14 Awst 2020.Ceir manylion isod y darparwyr prawf a rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

| Ardal | Cwmni Asefydlu Cymunedol | rhanbarth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | Gorllewin Swydd Efrog | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol y gogledd- |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddwyrain |
| Llundain | Llundain | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Llundain |
| Cymru | Amherthnasol | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | Swydd Warwick, Gorllewin Mercia | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| De-orllewin Lloegr | Dyfnaint, Dorset, Cernyw | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol y De-orllewin, Canol de Lloegr |
| Rhanbarth cenedlaethol | | Rhanbarth eiddo cymeradwy |
| Grŵp Gwarchod y Cyhoedd | | Tîm Adain Gwaith Achos Gwarchod y Cyhoedd (y PPCS) |

Cynhaliwyd cyfanswm o 39 cyfarfod gennym gyda'r grwpiau staff a ganlyn:

- swyddogion cyfrifol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol
- uwch-swyddogion prawf, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol
- uwch-reolwyr, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol
- cyfarwyddwyr rhanbarthol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- prif weithredwyr, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol
- uwch-reolwyr, rhanbarth eiddo cymeradwy
- rheolwyr Eiddo Cymeradwy
- gweithwyr preswyl Eiddo Cymeradwy
- Is-gyfarwyddwr Rhanbarthol Grŵp Gwarchod y Cyhoedd
- Pennaeth y tîm PPCS ac uwch-reolwyr

Yn rhan un o'r adolygiad, bu i ni gyfweld y Prif Swyddog Prawf a Phennaeth Datblygu Arferion, Is-adran Arferion Effeithiol yr HMPPS. Llywiodd y cyfarfodydd hyn hefyd ran dau o'r adolygiad.

## Adolygu achosion o alw unigolion yn ôl i'r carchar a rhybuddion am dorri trwydded

Bu i ni gynnal adolygiad ansoddol o achosion ar draws y naw darparwr prawf Digwyddodd hyn mewn dau gam. Yn y cam cyntaf, bu i ni nodi sampl o 50 o achosion o alw unigolyn yn ôl i'r carchar a rhybuddion am dorri trwydded gan adolygu ffeil pob achos. Fe ddadansoddodd hyn y rheswm dros alw'r unigolion yn ôl i'r carchar neu am y rhybudd, y broses o wneud penderfyniadau, asesu risg; a phriodoldeb y penderfyniad. Cymerwyd y sampl o garcharorion a ryddhawyd ar drwydded rhwng 30 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019.Oherwydd problemau adnabod achosion rhybuddio, estynnwyd hyn tan 31 Mawrth 2020 fel bod modd adnabod digon o achosion. Roedd y sampl yn cynnwys yr isod:

- 32 achos o alw unigolion yn ôl i'r carchar, 18 achos o rybuddio

- 36 defnyddiwr gwasaenaeth gwyn, 10 du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig a phedwar anhysbys
- 43 o ddefnyddwyr gwasanaeth oedd yn ddynion a 7 yn ferched
- 19 o achosion Cwmni Adsefydlu Cymunedol, 31 o achosion y Gwasanaeth Prawf Gwladol
- 44 achos o ddedfryd benodol, chwe achos o garcharu i warchod y cyhoedd.

yn ail gam yr adolygiadau achos cynhaliodd yr arolygwyr gyfweliadau gyda swyddogion cyfrifol yr achosion. Canolbwyntiodd y cyfweliadau ar y broses o wneud penderfyniadau yn yr achos, trothwyon galw unigolion yn ôl i'r carchar ac effeithiolrwydd y broses.

# Atodiad 3: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Rhaglen achrededig** | Rhaglen o waith a gyflawnir i droseddwyr mewn grwpiau neu'n unigol trwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd wedi ei gohirio, neu fel rhan o ddedfryd o garchar neu amod mewn trwydded ryddhau. Caiff rhaglenni achrededig eu hachredu gan Banel Achrededig Gwasanaethau Cywirol yn rhai effeithiol mewn gostwng tebygolrwydd aildroseddu. |
| **Eiddo cymeradwy** | Eiddo a gymeradwywyd dan Adran 13 Deddf Rheoli Troseddwyr 2007 ac a reolir un ai gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu gan sefydliadau annibynnol  Fe'u defnyddir fel preswyliaeth i droseddwyr a ystyrir yn risg uchel o niwed difrifol, y mae angen eu monitro a'u goruchwylio'n agos er mwyn dechrau eu hintegreiddio'n ôl i mewn i'r gymdeithas. |
| **Cwmni Adsefydlu Cymunedol** | Sefydlwyd 21 Cwmni ym Mehefin 2014 i reoli mwyafrif y troseddwyr sy'n peri risg isel, canolig neu uchel o niwed difrifol. |
| **System Cyfiawnder Troseddol** | Mae'n golygu unrhyw un o'r asiantaethau sy'n cynnal a gweithredu'r gyfraith, neu'r cyfan ohonynt - yr heddlu, llysoedd, timau troseddwyr ifainc, prawf a charchardai. |
| **Dedfryd benodol** | Dedfryd benodol o garchar yw lle mae'r llys yn pennu cyfnod sefydlog ar gyfer y ddedfryd o garchar. Hon yw'r math mwyaf cyffredin o ddedfryd o garchar. Er enghraifft gall troseddwr gael ei ddedfrydu i bedair blynedd o garchar. Dyma'r cyfnod hiraf y gallai'r troseddwr ei dreulio yn y carchar Fodd bynnag, ni fydd y troseddwr o reidrwydd yn treulio'r holl amser hwn yn y carchar. Mae'r rheolau sy'n llywodraethu pryd caiff carcharor ei ryddhau'n dibynnu ar hyd y ddedfryd a phryd y cyflawnwyd y drosedd. |
| **Model cyflawni eithriadol** | Cyflwynwyd modelau cyflawni eithriadol gan ddarparwyr prawf mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19 ym Mawrth ac Ebrill 2020. Roedd y rhain yn berthnasol i bob maes arferion prawf, gan gynnwys rheoli troseddwyr, cyflawni adroddiadau llys a chyswllt â charcharorion. |
| **EQuiP** | Rhagoriaeth ac Ansawdd Prosesau: adnodd cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar y we sy'n rhoi gwybodaeth gyson am y prosesau i'w dilyn ym mhob agwedd o waith y Gwasanaeth. Cynhelir y broses mapio gan fesurau sicrhau ansawdd. |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi: o 1 Ebrill 2017, daeth y gwasanaeth hwn yr unig asiantaeth oedd yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau carchardai a phrawf ar draws Cymru a Lloegr. Yr un pryd, cymerodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder gyfrifoldeb am gyfeiriad cyffredinol polisïau, gosod safonau, craffu perfformiad carchardai a gwasanaethau comisiynu. Arferai'r rhain ddod dan gylch gorchwyl y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). |

| | |
|---|---|
| **Tîm adolygu Troseddau Pellach Difrifol yr HMPPS** | Mae'r tîm hwn yng Ngrŵp Gwarchod y Cyhoedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae'n gyfrifol am weinyddu proses adolygu'r Troseddau Pellach Difrifol a thros sicrhau ansawdd yr holl adolygiadau a'r cynlluniau gweithredu. Mae'n rhoi canllawiau i ddarparwyr prawf ac mae'n gyfrifol am ddatblygu polisïau a chanllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud â Throseddau Pellach Difrifol. |
| **Dedfryd benagored** | Nid oes hyd sefydlog i ddedfryd benagored. Bydd yn rhaid i'r person dreulio cyfnod sylfaenol o amser yn y carchar (y 'tariff') cyn gellir ystyried ei ryddhau. Rhoddir dedfrydau penagored (er enghraifft,carchariad er gwarchod y cyhoedd) os cred y llys bod troseddwr yn peri perygl i'r cyhoedd. Y Bwrdd Parôl sy'n gyfrifol dros benderfynu a all gael ei ryddhau o'r carchar. |
| **Ymyrraeth** | Gwaith gydag unigolyn sydd wedi ei gynllunio i newid ei ymddygiad troseddol a/neu gynorthwyo i warchod y cyhoedd. Ymyrraeth adeiladol yw lle mai'r prif ddiben yw gostwng y tebygolrwydd o aildroseddu. Ymyrraeth gyfyngol yw lle mai'r prif ddiben yw sicrhau bod yr unigolyn yn peri cyn lleied â  phosibl o risg o niwed i eraill. Gyda throseddwr rhywiol, er enghraifft, efallai gydag ymyrraeth adeiladol y byddid yn ei roi drwy raglen achrededig i droseddwr rhyw, efallai mai gydag ymyrraeth gyfyngol (lleihau ei risg o niwed) y byddid yn monitro'n rheolaidd ac yn fanwl ei lety, ei gyflogaeth a'r lleoedd y mae'n mynd iddynt, gan osod a gweithredu cyfyngiadau clir fel sy'n briodol i bob achos. Mae'r ddau fath o ymyrraeth yn bwysig. |
| **Carchariad er Gwarchod y Cyhoedd** | Crëwyd dedfrydau o Garchariad i Warchod y Cyhoedd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a dechreuwyd eu defnyddio yn Ebrill 2005 Fe'u diddymwyd yn 2012.  Fe'u cynlluniwyd i warchod y cyhoedd rhag troseddwyr difrifol nad oedd eu troseddau'n cyfiawnhau dedfryd o oes. Treulia troseddwyr a ddedfrydir i garchariad i warchod y cyhoedd gyfnod sylfaenol (y "tariff") yn y carchar ac wedi hynny cânt wneud cais i'r Bwrdd Parôl i gael eu ryddhau. Ni fydd y Bwrdd Parôl yn rhyddhau troseddwr oni bai y bydd yn fodlon nad oes mwyach raid carcharu'r troseddwr er mwyn gwarchod y cyhoedd. Pan gaiff ei ryddhau ar drwydded, caiff ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. |
| **Trwydded** | Ar rhyw bwynt, caiff bron i bob unigolyn a ddedfrydir i garchar ei ryddhau ar drwydded dan oruchwyliaeth prawf. Treulir y rhan hon o'r ddedfryd yn y gymuned. Mae nifer o ofynion a/neu gyfyngiadau ynghlwm wrth y drwydded hon. Lle nad yw'r unigolyn yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, gallai rheolwr prawf y troseddwr ddechrau'r broses o'i alw'n ôl i'r carchar. |
| **Uned Cyflawni Lleol** | Uned weithredol yn cynnwys swyddfa neu swyddfeydd. Fel arfer maent yn rhannu ffin ag unedau rheoli sylfaenol yr heddlu a strwythurau awdurdodau lleol. |
| **MAPPA** | Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaeth: lle gweithia'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, y carchar ac asiantaethau gyda'i |

| | |
|---|---|
| | gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed sylweddol i eraill. Rheolaeth asiantaeth arferol yw lefel 1, lle gall yr asiantaeth sy'n gyfrifol am yr oruchwyliaeth neu am reoli achos y troseddwr, reoli'r risgiau y mae'r troseddwr yn eu peri. Mae hyn yn cymharu â Lefelau 2 a 3, lle mae angen rheolaeth weithredol amlasiantaeth. |
| **NOMS** | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: hyd at Ebrill 2017, yr unig asiantaeth oedd yn gyfrifol am y gwasanaethau carchardai a phrawf, a adwaenir bellach fel Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). |
| **NDelius** | National Delius: y System gymeradwy a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr i reoli achosion prawf. |
| **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | Un gwasanaeth cenedlaethol a ddaeth i fodolaeth ym Mehefin 2014. Ei rôl yw cyflwyno gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n peri risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai a ddaw dan MAPPA. |
| **OASys** | System asesu troseddwyr a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd i asesu risgiau ac anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth. |
| **Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014** | Fe'i gweithredwyd yn Chwefror 2015, yn berthnasol i droseddau a gyflawnwyd ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny Estynnodd y ddeddfwriaeth hon oruchwyliaeth yn y gymuned i'r holl oedolion a ddedfrydwyd i fwy nag un diwrnod yn y carchar. Cyn hynny, dim ond y rhai hynny a ddedfrydwyd i fwy na 12 mis a oruchwyliwyd yn y modd hwn. |
| **Rheolwr Troseddwyr** | Y swyddog sy'n gyfrifol am oruchwylio'r achos. Gallai fod yn swyddog prawf neu swyddog gwasanaethau prawf Mewn grwpiau ffocws, roedd y ddwy raddfa o staff yn bresennol, felly rydym wedi defnyddio'r term generic wrth gyfeirio at dystiolaeth. |
| **Rheoli troseddwyr** | Un o egwyddorion craidd rheoli troseddwyr yw bod un ymarferwr yn cymryd cyfrifoldeb am reoli troseddwr trwy gyfnod ei ddedfryd, boed hynny yn y ddalfa neu yn y gymuned. |
| **OMiC** | Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa: mae'r ffordd y rheolir achos carcharorion trwy'r ddedfryd o garchar wedi'i hadolygu yn y model OMiC. Mae'r model yn darparu'r fframwaith i gydlynu a dilyn taith unigolyn trwy garchar ac ar ôl ei ryddhau. Dan y model, gweithia staff carchar a rheolwyr prawf troseddwyr yn agos gyda'i gilydd a chyda'r troseddwr. |
| **Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr** | Menter a gomisiynir ar y cyd gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r HMPPS sydd â'r nod o ddarparu llwybr o wasanaethau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol grŵp troseddwyr hynod gymhleth a heriol sy'n debygol o fod ag anhwylder personoliaeth difrifol ac sy'n peri risg uchel o niwed i eraill neu risg uchel o droseddu mewn modd niweidiol. |

| | |
|---|---|
| **Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014** | Fe'i gweithredwyd yn Chwefror 2015, yn berthnasol i droseddau a gyflawnwyd ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny |
| **OSAG** | Grŵp Sicrhau Gweithredoedd a Systemau. Maent yng Nghyfarwyddiaeth Perfformiad yr HMPPS ac yn cynnal archwiliadau gweithredol mewnol. |
| **Bwrdd Parôl** | Corff annibynnol sydd â swyddogaeth led-farnwrol yw'r Bwrdd Parôl. Mae'n penderfynu a oes modd i garcharorion gael eu rhyddhau'n ddiogel i'r gymuned. Corff cyhoeddus anadrannol gweithredol yw'r Bwrdd Parôl a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. |
| **PI** | Cyfarwyddyd Prawf Cyfarwyddiadau mandadol yw'r rhain a gyflwynir gan yr HMPPS, yn manylu ar bolisïau a chanllawiau. |
| **PIPE** | Amgylchedd cynlluniedig sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol. Mae PIPE yn rhan allweddol o strategaeth Anhwylder Personoliaeth y troseddwr. Gweithredant mewn carchardai penodol ac eiddo cymeradwy. Amgylcheddau a gynllunir yn benodol lle caiff aelodau o staff hyfforddiant ychwanegol i ddatblygu dealltwriaeth seicolegol gynyddol o'u gwaith. Cefnogir gwasanaethau PIPE gan staff carchar/prawf ychwanegol a therapydd seicolegol cymwysedig. Mae PIPE yn canolbwyntio ar ddarparu perthynas a chyswllt rhag-gymdeithasol a bod yn rhan o lwybr triniaeth o wasanaethau. Nid rhaglen triniaeth yn yr ystyr draddodiadol yw PIPE: yn hytrach, mae'n cefnogi cynnydd a phontio trwy lwybr sy'n gweithredu mewn lleoliadau carchar a phrawf. |
| **Swyddog Prawf** | Dyma'r term am swyddog cyfrifol sydd wedi cwblhau cymhwyster proffesiynol addysg uwch. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio gan ddibynnu ar pryd y'i cynhaliwyd. Mae'n rheoli achosion mwy cymhleth. |
| **PPG** | Grŵp Gwarchod y Cyhoedd: Y grŵp yn yr HMPPS lle mae'r tîm Troseddau Pellach Difrifol yn eistedd. |
| **PPCS** | Adain Gwaith Achos Gwarchod y Cyhoedd: adain yn yr HMPPS sy'n ymdrin â gwaith achos cyn rhyddhau carcharorion ac wedi eu rhyddhau yng nghyswllt rhyddhau carcharorion a'u galw'n ôl i'r carchar. |
| **Galw Unigolion yn ôl i'r carchar** | Mae modd i droseddwr ar drwydded gael ei alw'n ôl i'r carchar os yw'n methu cydymffurfio ag amodau ei drwydded. Mae modd ei ryddhau eto ar ôl 28 diwrnod os yw'n cwrdd â meini prawf penodol. Os nad yw, bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu a gaiff ei ryddhau ar unrhyw adeg cyn diwedd ei ddedfryd. Mewn rhai achosion, gall y swyddog cyfrifol gefnogi achos o ryddhau gweithredol, sy'n caniatáu i adain gwaith achos gwarchod y cyhoedd benderfynu a yw troseddwr yn addas i'w ailryddhau heb adolygiad llawn gan y Bwrdd Parôl.<br><br>Mae modd galw troseddwr ar drwydded carchariad er gwarchod y cyhoedd yn ôl i'r carchar os yw'n methu cydymffurfio ag amodau ei drwydded. Rhaid cyfeirio ei achos at y Bwrdd Parôl Annibynnol o |

| | |
|---|---|
| | fewn 28 diwrnod iddo ddychwelyd i'r carchar. Ar gyfarwyddyd y Bwrdd Parôl yn unig y gellir ei ryddhau eto. |
| **Asesu Risg** | Proses casglu, dilysu a gwerthuso gwybodaeth i sefydlu natur a maint risg, un ai y tebygolrwydd o aildroseddu neu niwed difrifol. Cynorthwyir asesiad risg yn aml gan ddefnyddio teclynnau asesu risg ffurfiol. Mae asesiad risg o ansawdd dda yn ychwanegu at gryfderau yn ogystal ag yn nodi anawsterau, mae tystiolaeth yn sail gadarn iddi; ac mae'n broses barhaus yn hytrach nag yn un digwyddiad. |
| **Risg o niwed difrifol** | Lefel asesedig y risg o niwed y nodir bod y defnyddiwr gwasanaeth yn ei beri. Difinnir niwed difrifol isod. Mae'r asesiad hwn yn rhan o declyn asesu OASys.<br><br>Mae pedair lefel i risg o niwed difrifol:<br><br>*Risg*isel o niwed difrifol: Nid yw tystiolaeth gyfredol yn dangos tebygolrwydd o achosi niwed difrifol.<br><br>*Risg* ganolig o niwed difrifol: Mae dangosyddion adnabyddadwy o risg o niwed difrifol. Mae gan y troseddwr y potensial o achosi niwed difrifol ond mae'n annhebygol o wneud hynny onid oes newid mewn amgylchiadau, er enghraifft methu cymryd meddyginiaeth, colli llety, perthynas yn torri neu gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.<br><br>*Risg*uchel o niwed difrifol: Mae dangosyddion adnabyddadwy o risg o niwed difrifol. Gallai'r digwyddiad posib ddigwydd ar unrhyw adeg a byddai'r effaith yn ddifrifol.<br><br>*Risg uchel*iawn o niwed difrifol: Mae risg uniongyrchol o niwed difrifol. Mae'r digwyddiad posibl yn fwy tebygol na pheidioo ddigwydd yn fuan a byddai'r effaith yn ddifrifol. Mae'r asesiad yn debygol o ymwneud ag 'ychydig allweddol'. |
| **Rheoli risg** | Mae'n cyfeirio at y strategaethau hynny a ddefnyddir i reoli risg, un ai trwy ostwng y tebygolrwydd y bydd trosedd niweidiol yn digwydd, neu drwy ostwng effaith y drosedd pe digwyddai (er enghraifft, diogelu dioddefwyr). Mae strategaethau'n cyfyngu ar gyfleoedd i droseddu yn amlach na pheidio, yn cyfyngu ar gyswllt â dioddefwyr posibl neu gael effaith arnynt a thargedu ymddygiad mentrus ar gyfer newid. Y duedd yw defnyddio'r term wrth gyfeirio at risg o niwed yn hytrach na risg o aildroseddu. Mae rheoli risg yn fwy effeithiol pan fo'r troseddwr wedi ymrwymo i'r gweithgareddau ac yn eu cefnogi, a gwneir hyn yn fwy tebygol gan ganolbwyntio'n glir ar egwyddorion a chyfleoedd sy'n atal newid. |
| **Y Cynllun rheoli risg** | Mae'n ofynnol bod cynllun o'r fath yn ei le ac wedi'i gofnodi ar gyfer yr holl droseddwyr sydd wedi eu hasesu fel risg uchel neu uchel iawn o beri niwed difrifol. |
| **Trosedd Bellach Ddifrifol** | Lle mae defnyddiwr gwasanaeth sydd ar brawf (neu wedi bod ar brawf yn ddiweddar) yn cyflawni un o nifer o droseddau difrifol (megis llofruddiaeth, dynladdiad, treisio).Troseddau a gyflawnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth yw'r rhain sy'n dod o fewn cylch gorchwyl Cyfarwyddyd Prawf 06/2018 Atodiad 1.Rhaid i'r Cwmnïau Adsefydlu |

| | |
|---|---|
| | Cymunedol a/neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol roi gwybod i'r HMPPS am unrhyw unigolyn a gyhuddir o un o'r achosion hyn. Yna cynhelir adolygiad gyda'r bwriad o nodi gwersi a ddysgwyd. |
| **Adolygiad Troseddau Pellach Difrifol** | Cynhelir yr adolygiad pan fo'r defnyddiwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd bellach ddifrifol. |
| **Teclyn rheoli llwyth gwaith** | Teclyn i gyfrifo llwyth gwaith cyffredinol swyddog cyfrifol unigol. Mae'n cadw mewn cof niferoedd a mathau achosion. |

Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf EM
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

ISBN: 978-1-84099-942-6